# Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen

## Cyfrifon Blynyddol

## 2004-05

# Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen

## Rhagair

Paratowyd y cyfrifon hyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 gan Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen o dan adran 98(2) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (fel a newidiwyd gan adran 24(2), atodiad 2 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990) mewn ffurf sydd yn unol â chyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

Prif waith yr Ymddiriedolaeth yw darparu gwasanaethau aciwt a chymunedol i Sir Benfro a gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu i Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

## INCWM A GWARIANT AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2005

| | Nodyn | £000 | 2003-04 £000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm o weithgareddau** | 3 | **110,975** | 96,842 |
| **Incwm gweithredu arall** | 4 | **5,304** | 5,435 |
| **Cyfanswm yr incwm** | | **116,279** | 102,277 |
| **Treuliau gweithredu** | 5 | **(116,909)** | (103,859) |
| **Arian gweithredu sy'n weddill/ (diffyg)** | | **(630)** | (1,582) |
| Costau aildrefnu/ailstrwythuro sylfaenol | | **0** | 0 |
| Elw /(colled) ar waredu asedau sefydlog | 8 | **(26)** | (105) |
| **Arian sy'n weddill /(diffyg) cyn llog** | | **(656)** | (1,687) |
| Llog sy'n dderbyniadwy | | **301** | 252 |
| Llog sy'n daladwy | 9 | **8** | (1) |
| Costau cyllid eraill | 16 | **(35)** | (34) |
| **Arian sy'n weddill /(diffyg) ar gyfer y flwyddyn ariannol** | | **(382)** | (1,470) |
| Difidend Cyfalaf Cyhoeddus - difidendau sy'n daladwy | | **(1,908)** | (1,877) |
| **Arian sy'n weddill /(diffyg) a gedwir ar gyfer y flwyddyn** | 17 | **(2,290)** | (3,347) |

## DATGANIAD O GYFANSWM YR ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2005

| | Nodyn | £000 | 2003-04 £000 |
|---|---|---|---|
| Arian sy'n weddill /(diffyg) ar gyfer y flwyddyn ariannol cyn taliadau difidend | | **(382)** | (1,470) |
| Colledion amhariad ar asedau sefydlog | 17 | **0** | 0 |
| Arian sy'n weddill/(diffyg) na wireddwyd wrth ailbrisio/mynegrifo asedau sefydlog | 17 | **1,160** | 3,031 |
| Cynnydd yng nghronfeydd wrth gefn asedau a gafwyd yn rhodd a chronfeydd grantiau'r llywodraeth o ganlyniad i dderbyn asedau grantiau'r llywodraeth a gafwyd yn rhodd. | 17 | **124** | 40 |
| Gostyngiad yng nghronfeydd wrth gefn asedau a gafwyd yn rhodd a grantiau'r llywodraeth o ganlyniad i ddibrisio, amhariad a gwaredu asedau a gafwyd yn rhodd a grantiau'r llywodraeth | 17 | **(57)** | (65) |
| Ychwanegiadau / (gostyngiadau) mewn "cronfeydd wrth gefn eraill" | 17 | **0** | 0 |
| Cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn ariannol | 17 | **845** | 1,536 |
| Addasiad y cyfnod blaenorol | | **0** | 0 |
| **Cyfanswm yr enillion a'r colledion a gydnabuwyd yn y flwyddyn ariannol** | | **845** | 1,536 |

## MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2005

| | Nodyn | £000 | £000 | 31 Mawrth 2004 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | | |
| Asedau aniriaethol | 10 | **13** | | |
| Asedau diriaethol | 11 | **69,232** | | 64,118 |
| | | | **69,245** | 64,118 |
| **Asedau cyfredol** | | | | |
| Stociau a gwaith ar y gweill | 12 | **1,495** | | 1,502 |
| Dyledwyr | 13 | **8,025** | | 4,624 |
| Buddsoddiadau | 14 | **0** | | 0 |
| Arian yn y banc ac arian wrth gefn | 18.3 | **910** | | 2,767 |
| | | | **10,430** | 8,893 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 15 | | **(8,675)** | (5,685) |
| **Asedau cyfredol net/ (ymrwymiadau)** | | | **1,755** | 3,208 |
| **Cyfanswm yr asedau llai ymrwymiadau cyfredol** | | | **71,000** | 67,326 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 15 | | **(11,065)** | (8,651) |
| Darpariaethau ar gyfer ymrwymiadau a chostau | 16 | | **(3,577)** | (2,630) |
| **Cyfanswm yr asedau a ddefnyddiwyd** | | | **56,358** | 56,045 |
| **Ariannwyd gan:** | | | | |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | | |
| Difidend cyfalaf cyhoeddus | 23.2 | | **48,761** | 47,385 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | 17 | | **15,315** | 14,164 |
| Cronfa wrth gefn asedau a gafwyd yn rhodd | 17 | | **355** | 279 |
| Cronfa wrth gefn grantiau'r llywodraeth | 17 | | **0** | 0 |
| Cronfeydd wrth gefn eraill | 17 | | **0** | 0 |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn | 17 | | **(8,073)** | (5,783) |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | | **56,358** | 56,045 |

Llofnodwyd ar ran y Bwrdd ar 28 Gorffennaf 2005

Cadeirydd: LJ George

Prif Weithredwr: ME Hodgeon

Mabwysiadwyd gan y Bwrdd ar 28 Gorffennaf 2005

## DATGANIAD LLIF ARIAN AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2005

| | Nodyn | £000 | £000 | 2003-04 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau gweithredu** | | | | |
| Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu | 18.1 | | **2,940** | 2,918 |
| **Enillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | **309** | | 237 |
| Llog a dalwyd | | **0** | | 0 |
| Elfen llog y prydlesau cyllid | | **8** | | (1) |
| **Mewnlif/ (all-lif) arian net o'r enillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | **317** | 236 |
| **Gwariant cyfalaf** | | | | |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol | | **(7,144)** | | (9,030) |
| Derbyniadau o werthu asedau sefydlog diriaethol | | **47** | | 371 |
| Taliadau i gaffael/ derbyniadau o werthu asedau aniriaethol | | **(13)** | | 0 |
| Mewnlif / (all-lif) arian net o wariant cyfalaf | | | **(7,110)** | (8,659) |
| Difidend cyfalaf cyhoeddus difidendau a dalwyd | | | **(2,311)** | (1,429) |
| **Rheoli adnoddau hylifol** | | | | |
| Prynu buddsoddiadau ased cyfredol | | **0** | | 0 |
| Gwerthu buddsoddiadau | | **0** | | 0 |
| **Mewnlif / (all-lif) arian net o reoli adnoddau hylifol** | | | **0** | 0 |
| **Mewnlif / (all-lif) arian net cyn ariannu** | | | **(6,164)** | (6,934) |
| **Ariannu** | | | | |
| Difidend cyfalaf cyhoeddus a dderbyniwyd | | **1,771** | | 6,369 |
| Difidend cyfalaf cyhoeddus a ad-dalwyd: (nas cronnwyd yn flaenorol) | | **0** | | (344) |
| Difidend cyfalaf cyhoeddus a ad-dalwyd: (a gronnwyd mewn cyfnod blaenorol) | | **0** | | (231) |
| Benthyciadau'r Llywodraeth a dderbyniwyd: tymor byr | | **0** | | 0 |
| Benthyciadau'r Llywodraeth a ad-dalwyd: tymor byr | | **0** | | 0 |
| Blaendaliadau benthyciad/broceriaeth a dderbyniwyd | | **2,444** | | 3,350 |
| Blaendaliadau benthyciad/broceriaeth a ad-dalwyd | | **0** | | 0 |
| Derbyniadau cyfalaf eraill | | **124** | | 40 |
| Elfen gyfalaf y prydlesau cyllid | | **(32)** | | (47) |
| **Mewnlif / (all-lif) arian net o ariannu** | | | **4,307** | 9,137 |
| **Cynnydd/ (gostyngiad) mewn arian** | 18.2 | | **(1,857)** | 2,203 |

## Nodiadau i'r cyfrifon

**1. Polisiau cyfrifo a gwybodaeth arall**
Yn ôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru bydd datganiadau ariannol ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn cwrdd â gofynion cyfrifo llawlyfr cyfrifon ymddiriedolaethau'r GIG y cytunir arnynt gyda Thrysorlys ei Mawrhydi. Mae polisiau cyfrifo'r llawlyfr yn dilyn arfer cyfrifo cyffredin y DU ar gyfer cwmniau (UK GAAP) a Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau trysorlys ei Mawrhydi i'r graddau ei fod yn ystyrlon ac yn briodol i'r GIG, yn unol â phenderfyniad y Trysorlys ei Mawrhydi, sy'n cael ei gynghori gan y Bwrdd Ymgynghorol Hysbysu Ariannol. Defnyddiwyd y polisiau cyfrifo'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon gydag un eithriad gweler nodyn 1.12. Sefydlir y polisiau yn y llawlyfr ar gyfer cyfrifon ac nid ydynt yn cael eu pennu gan ymddiriedolaethau unigol y GIG.

**1.1 Confensiwn cyfrifo**
Paratowyd y cyfrif hwn o dan y confensiwn cost hanesyddol, ac addaswyd i gyfrif am ailbrisio asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol. Nid oes rhaid i Ymddiriedolaethau GIG ddarparu cysoniad rhwng gweddillion a diffygion costau cyfredol.

**1.2 Caffaeliadau a gweithrediadau wedi eu terfynu**
Ystyrir gweithgareddau fel rhai wedi eu 'caffael' ond os ydynt wedi eu caffael o'r tu allan i'r sector cyhoeddus. Ystyrir gweithgareddau fel rhai 'wedi eu terfynu' ond os ydynt yn dod i ben yn gyfan gwbl. Ni ystyrir hwy fel rhai 'wedi eu terfynu' os ydynt yn trosglwyddo o un corff GIG i un arall.

**1.3 Cydnabod Incwm**
Cyfrifir incwm drwy ddefnyddio'r confensiwn croniadau. Daw prif ffynhonnell incwm yr ymddiriedolaeth oddi wrth gomisiynwyr gwasanaethau iechyd a ddarperir o dan gytundebau Fframwaith Gwasanaeth ac Ariannol. Caiff incwm ei gydnabod yn y cyfnod y darperir gwasanaethau ynddo. Lle derbynnir incwm am weithgaredd penodol sydd i'w ddarparu yn y flwyddyn ariannol ganlynol, caiff yr incwm hwnnw ei ohirio.

**1.4 Asedau sefydlog aniriaethol**
Caiff yr asedau aniriaethol eu cyfalafu os gellir eu defnyddio yng ngweithgareddau'r Ymddiriedolaeth am fwy nag un flwyddyn; y gellir eu prisio a bod ganddynt gost o £5,000 o leiaf.

Mae asedau sefydlog aniriaethol sy'n cael eu dal i'w defnyddio'n weithredol yn cael eu prisio ar gost hanesyddol ac yn cael eu dibrisio dros fywyd amcangyfrifedig yr ased gan ddefnyddio'r dull linell syth, ac eithrio Ymchwil a Datblygiad wedi ei gyfalafu sy'n cael ei ailbrisio drwy ddefnyddio ffigur mynegai priodol. Mae gwerth dwyn ymlaen asedau aniriaethol yn cael ei adolygu ar gyfer amhariad ar ddiwedd y flwyddyn lawn gyntaf wedi eu sicrhau, ac mewn cyfnodau eraill os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn dangos efallai na fydd modd adennill y gwerth dwyn ymlaen.

Mae trwyddedau meddalwedd cyfrifiaduron a brynwyd yn cael eu cyfalafu fel asedau sefydlog aniriaethol lle cafwyd gwariant o £5,000 o leiaf. Maent yn cael eu dileu dros dymor byrraf y drwydded a'u bywydau economaidd defnyddiol .

**1.5 Asedau sefydlog diriaethol**
**i. Cyfalafu**
Caiff yr holl asedau diriaethol eu cyfalafu os gellir eu defnyddio am gyfnod sy'n fwy na blwyddyn a:
- bod ganddynt gost unigol o £5,000 o leiaf; neu
- fod ganddynt gost gyfunol o £5,000 o leiaf, lle bo'r asedau'n rhyngddibynnol o ran swyddogaeth, roedd dyddiadau eu prynu'n cyd-daro fwy neu lai a rhagdybir y bydd y dyddiadau gwaredu'n cyd-daro; ac maent o dan un rheolaeth reolaethol; neu
- eu bod yn rhan o gost gychwynnol sefydlu a chyflenwi adeilad, ward neu uned newydd, beth bynnag yw eu cost unigol neu gyfunol.

**ii. Prisio**

Caiff asedau sefydlog diriaethol eu datgan o ran cost isaf eu hailosod a chost adferadwy. Wrth eu cydnabod gyntaf mesurir hwy ar gost (ar gyfer asedau a brydleswyd, gwerth teg) gan gynnwys unrhyw gostau fel costau gosod y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'w gwneud iddynt weithio. Maent yn cael eu hailddatgan i'w gwerth cyfredol bob blwyddyn. Mae gwerth dwyn ymlaen asedau sefydlog diriaethol yn cael ei adolygu am amhariad mewn cyfnodau os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn dynodi na fydd modd adfer y gwerth dwyn ymlaen.

Caiff tir ac adeiladau eu hailddatgan i werth cyfredol drwy ddefnyddio prisiadau proffesiynol yn unol â FRS15 bob pum mlynedd ac yn y blynyddoedd canol drwy ddefnyddio mynegeion. Mae'r mynegai adeiladau wedi ei seilio ar 'Fynegai Prisiau Tendr Cyfan' a gyhoeddir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu. Caiff y mynegai tir ei seilio ar brisiadau tir adeiladau preswyl a hysbysir yn Adroddiad y Farchnad Eiddo a gyhoeddir gan y Swyddfa Brisio.

Cynhelir prisiadau gan Briswyr Dosbarth Cyllid y Wlad bob 5 mlynedd. Cynhelir prisiadau yn unol â Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig i'r graddau y bo'r amodau'n gyson â gofynion y Cynulliad a Thrysorlys ei Mawrhydi sydd wedi eu cytuno. Cynhaliwyd prisiadau diwethaf asedau ar 30 Medi 2002 ac adlewyrchwyd hwy yng ngwerthoedd mantolen 2002-03.

Cynhelir prisiadau ar gyfer eiddo gweithredol arbenigol yn bennaf ar sail cost eu hailosod a hynny ar ôl dibrisio a chynhelir prisiadau ar gyfer eiddo gweithredol anarbenigol ar sail gwerth eu defnydd cyfredol. Caiff gwerth tir at ddibenion defnydd cyfredol ei asesu ar sail gwerth ei ddefnydd cyfredol. Ar gyfer eiddo anweithredol, gan gynnwys tir sy'n weddill, cynhelir prisiadau ar sail eu gwerth ar y farchnad agored.

Mae pob addasiad o ganlyniad fynegeio ac ailbrisiadau pum mlynedd yn cael eu cymryd i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn. Mae pob amhariad sydd o ganlyniad newid prisiau yn cael eu codi ar Ddatganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig. Mae gostyngiadau mewn gwerth pan fydd asedau sydd newydd eu hadeiladu'n cael eu defnyddio hefyd yn cael eu codi arno. Mae'r gostyngiadau yma mewn gwerth o ganlyniad i fabwysiadu amodau delfrydol fel sail prisiadau cost ailosod wedi eu dibrisio.

Dim ond ar gyfer asedau gweithredol sydd i'w cau'n fuan a'u gwaredu wedi hynny y rhoddwyd ffigyrau Gwerth Marchnad Agored gwahanol ychwanegol.

Caiff asedau yn ystod y cyfnod adeiladu eu prisio ar y gost gyfredol gan ddefnyddio mynegeion fel ar gyfer tir ac adeiladau, fel yr uchod. Mae'r asedau hyn yn cynnwys unrhyw dir neu adeiladau sy'n bodoli o dan reolaeth contractwr.

Caiff llogau gweddilliol mewn eiddo Menter Cyllid Preifat nad yw ar y fantolen eu cynnwys yn asedau sefydlog diriaethol fel 'asedau sy'n cael eu hadeiladu a thaliadau ar gyfrif' lle bo'r contract PFI yn nodi'r swm, neu ddim, pan fydd yr asedau'n cael eu trosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth ar ddiwedd y contract. Caiff y llog gweddilliol ei adeiladu, ar sail actiwaraidd, yn ystod oes y contract drwy gyfalafu rhan o'r tâl unedol fel bo, ar ddiwedd y contract, gwerth mantolen y gwerth gweddilliol a'r swm penodol yn gyfartal i werth teg disgwyliedig yr ased gweddilliol ar ddiwedd y contract. Y Prisiwr Dosbarth sy'n penderfynu ar werth teg tybiedig yr ased wrth ddychwelyd. Dylai'r Prisiwr Dosbarth roi amcangyfrif o werth teg disgwyliedig yr asedau ar yr un sail ag y mae'r Prisiwr Dosbarth yn prisio ystâd Ymddiriedolaethau'r GIG.

Caiff offer gweithredol ei brisio ar gostau cyfredol net ailosod drwy godiad blynyddol gan y newid yng ngwerth datchwyddwr y GDP. Caiff offer sydd dros ben ei brisio am swm adferadwy net.

**iii. Dibrisiant**
Caiff asedau sefydlog diriaethol eu dibrisio ar gyfraddau a gyfrifwyd eu gostwng i werth gweddilliol amcangyfrifedig ar ddull y linell syth dros eu bywydau defnyddiol tybiedig. Ni chaiff tir rhydd-ddaliol, asedau yn ystod y cyfnod adeiladu ac asedau dros ben eu dibrisio.

Ni chaiff asedau sy'n cael eu hadeiladu a llogau gweddilliol asedau contract PFI nad ydynt ar y fantolen eu dibrisio nes y caiff yr ased ei ddefnyddio neu ei ddychwelyd i'r Ymddiriedolaeth, yn y drefn honno.

Caiff adeiladau, gosodiadau a ffitiadau eu dibrisio ar eu gwerth cyfredol dros weddill bywyd tybiedig yr asedau fel y cynghora'r Prisiwr Dosbarth. Caiff eiddo prydlesol ei ddibrisio dros gyfnod y brydles sylfaenol. Caiff offer ei ddibrisio ar y gost gyfredol dros fywyd tybiedig yr ased.

Caiff colledion amhariad o ganlyniad i newidiadau tymor byr mewn pris sy'n cael eu hystyried yn adferadwy yn y tymor hir eu dwyn yn llawn i'r gronfa ailbrisio wrth gefn. Mae'r rhain yn cynnwys amhariadau o ganlyniad ailbrisio asedau sefydlog o'u cost i'w gwerth mewn defnydd cyfredol pan fyddant yn weithredol. Gallai hyn arwain at gronfa ailbrisio wrth gefn negyddol mewn rhai amgylchiadau.

Lle bo bywyd economaidd defnyddiol ased yn llai na'r hyn a dybiwyd i ddechrau oherwydd ailbrisio ased ar werth, caiff dibrisiant ei godi er mwyn dod â gwerth yr ased i'w werth adeg gwerthu.

Pan godir tâl amhariad ased sefydlog ar y Cyfrif Incwm a Gwariant, o dan Safon Adrodd Ariannol 11, telir incwm gwrthbwyso gan y Cynulliad drwy brif gomisiynydd yr Ymddiriedolaeth, i wrthbwyso'r gost. Defnyddir yr incwm i dalu Difidend Cyfalaf Cyhoeddus yn ôl.

**1.6 Asedau sefydlog a gafwyd yn rhodd**
Caiff asedau sefydlog a gafwyd yn rhodd eu cyfalafu am eu gwerth cyfredol wrth eu derbyn a chaiff y gwerth yma ei gredydu i gronfa wrth gefn asedau a gafwyd yn rhodd. Caiff asedau a gafwyd yn rhodd eu prisio a'u dibrisio fel a ddisgrifiwyd uchod ar gyfer asedau a brynwyd. Wrth ailbrisio caiff enillion a cholledion hefyd eu cymryd i'r gronfa wrth gefn ar gyfer asedau a gafwyd yn rhodd a phob blwyddyn, caiff swm sy'n gyfwerth â chost dibrisio ei ryddhau o'r gronfa wrth gefn i'r Cyfrif Incwm a Gwariant. Yn yr un modd, caiff swm sy'n gyfwerth ag unrhyw amhariad ar asedau a godwyd ar y Cyfrif Incwm a Gwariant ei drosglwyddo o'r gronfa wrth gefn ar gyfer asedau a roddwyd. Wrth werthu asedau a roddwyd, mae gwerth arian y gwerthu yn cael ei drosglwyddo o'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer Asedau a Gafwyd yn Rhodd i'r Gronfa Incwm a Gwariant Wrth Gefn.

**1.7 Grantiau'r Llywodraeth**
Mae grantiau'r Llywodraeth yn grantiau oddi wrth gyrff y llywodraeth ar wahân i arian oddi wrth gyrff y GIG neu arian a roddwyd gan Bleidlais Seneddol. Caiff cronfa gadw grantiau'r llywodraeth ei chynnal ar lefel sy'n gyfartal i werth llyfr net yr asedau a ariannwyd ganddi.

**1.8 Prydlesi**
Lle i raddau helaeth y bydd yr ymddiriedolaeth yn gyfrifol am risgiau a gwobrwyon perchenogaeth ased ar brydles, caiff yr ased ei gofnodi fel ased sefydlog diriaethol a chofnodir dyled i'r prydleswr o'r isafswm o daliadau prydles a ostyngir gan y gyfradd llog sy'n oblygedig yn y brydles. Caiff elfen llog y taliad ariannol ei godi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant dros gyfnod y brydles ar raddfa gyson o ran y gweddill sydd ar ôl. Caiff prydlesi eraill eu hystyried fel prydlesi gweithredol a chaiff y rhenti eu codi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant ar sail linol dros amodau'r brydles.

**1.9 Menter Cyllid Preifat**
Mae'r GIG yn dilyn 'Nodyn Technegol 1 (Diwygiedig) Trysorlys EM Sut i gyfrifo trafodion PFI' sy'n darparu canllaw ymarferol ar gyfer cymhwyso addasiad FRS5. Mae cynlluniau PFI yn gynlluniau y mae'r gweithredydd PFI yn derbyn tâl blynyddol gan yr Ymddiriedolaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan y gweithredydd PFI.

Pan fo gweithredydd y PFI yn gyfrifol am risgiau a gwobrwyon perchenogaeth, cofnodir y taliadau PFI fel cost gweithredu. Pan fo'r ymddiriedolaeth wedi cyfrannu asedau, caiff taliad o flaen llaw am eu gwerth teg ei gydnabod a'i ddileu dros fywyd y contract PFI drwy godi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant. Pan fo eiddo'n dychwelyd i'r ymddiriedolaeth, ar ddiwedd y contract PFI, mae'r gwahaniaeth rhwng gwerth teg disgwyliedig y gweddill wrth ddychwelyd ac unrhyw daliad a gytunwyd wrth ddychwelyd yn cael ei adeiladu dros fywyd y contract drwy gyfalafu rhan o'r codiad unedol bob blwyddyn, fel ased sefydlog diriaethol.

Pan fo'r ymddiriedolaeth yn gyfrifol am risgiau a gwobrwyon perchenogaeth eiddo'r PFI, caiff ei gydnabod fel ased sefydlog ynghyd â'r cyfrifoldeb i dalu amdano sy'n cael ei gyfrifo fel prydles cyllid. Caiff taliadau contract eu rhannu rhwng tâl prydles cyllid priodoledig a thâl gwasanaeth.

**1.10 Stociau a gwaith ar y gweill**

Caiff stociau a gwaith ar y gweill eu prisio ar eu gwerth cost a'u gwerth sylweddoladwy net isaf. Ystyrir hyn i fod yn amcan rhesymol o agos i'r gost gyfredol o ganlyniad i drosiant uchel stociau. Mae gwaith ar y gweill yn cynnwys nwyddau yng nghyfnodau cyfryngol cynhyrchu. Ni chaiff contractau a gwblhawyd yn rhannol ar gyfer gwasanaethau cleifion eu hystyried fel gwaith ar y gweill.

**1.11 Ymchwil a datblygiad**

Ni chaiff gwariant ar ymchwil ei gyfalafu. Caiff gwariant ar ddatblygu ei gyfalafu os yw'n cwrdd â'r meini prawf canlynol:

* mae project wedi'i ddiffinio'n glir;
* gellir dynodi'r gwariant cysylltiedig ar wahân;
* cafodd canlyniad y project ei asesu â sicrwydd rhesymol o ran:
    * ei ymarferoldeb technegol
    * y bydd yn arwain at gynnyrch neu wasanaeth fydd yn y pen draw yn cael ei ddefnyddio;
* bod adnoddau digonol yn bodoli, neu y disgwylir yn rhesymol iddynt fod ar gael, er mwyn cwblhau'r project a darparu unrhyw gynnydd o ganlyniad mewn cyfalaf gweithredol.

Caiff gwariant a ohiriwyd felly ei gyfyngu i werth disgwyliedig y buddiannau yn y dyfodol a chaiff ei ddileu drwy'r cyfrif incwm a gwariant yn systematig dros y cyfnod y disgwylir iddo elwa o'r project. Caiff ei ailbrisio ar sail cost gyfredol. Caiff y tâl dileu ei gyfrif ar yr un sail a ddefnyddir ar gyfer dibrisio h.y. yn chwarterol. Caiff gwariant nad yw'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cyfalafu ei drin fel cost gweithredol yn y flwyddyn y caiff ei wario. Nid yw'r ymddiriedolaeth yn gallu datgelu cyfanswm gwariant ymchwil a datblygiad a godir ar y cyfrif incwm a gwariant (yn ôl gofynion SSAP 13) oherwydd ni ellir gwahanu rhywfaint o weithgaredd ymchwil a datblygiad oddi wrth weithgaredd gofal cleifion.

Caiff asedau sefydlog a sicrhawyd i'w defnyddio ar gyfer ymchwil a datblygiad eu dileu dros oes y project cysylltiedig.

**1.12 Darpariaethau**

Mae'r ymddiriedolaeth yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol sy'n ansicr o ran amseru neu swm ar ddyddiad y fantolen ar sail yr amcangyfrif gorau o'r swm angenrheidiol i gwrdd â'r rhwymedigaeth. Pan fo effaith gwerth arian dros amser yn sylweddol, mae'r llifau arian amcangyfrifedig a addaswyd ar gyfer risg yn cael eu gostwng gan ddefnyddio cyfradd gostyngiad y Trysorlys o 3.5% mewn gwir werth.

Mae’r cyfrifon yn gwyro oddi wrth ofynion FRS12 Darpariaethau, rhwymedigaethau annisgwyl ac asedau annisgwyl mewn perthynas â chostau Agenda dros Newid 2004-05. Mae’r FRS12 yn gofyn bod yr Ymddiriedolaeth yn ymdrechu i gyfrif amcangyfrif dibynadwy costau’r Agenda dros Newid i’w cynnwys yn y cyfrifon hyn. Os ni ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy yna ni ddylid cydnabod unrhyw ddarpariaeth. Dan gyfarwyddyd y Cynulliad – fel a osodwyd yn Nodyn 21, ni chafodd unrhyw ddarpariaethau ar gyfer yr Agenda dros Newid eu cynnwys yn y cyfrifon hyn. Pe byddai amcangyfrif dibynadwy wedi cael ei gyfrif, byddai darpariaeth a’r cyllid perthynol wedi cael ei gynnwys yn y cyfrifon. Nid ydym yn gallu mesur effaith y gwyriad hwn gan nid ydym wedi gwneud amcangyfrif dibynadwy.

**1.13 Colledion a thaliadau arbennig**
Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am yr holl golledion a thaliadau arbennig gros (gan gynnwys cymorth gan Gronfa Risg Cymru). Mae'r Ymddiriedolaeth yn cronni arian ar gyfer yr amcangyfrif gorau o'i holl-daliadau yn y dyfodol ar gyfer rhwymedigaethau pendant neu debygol neu annisgwyl ac mae'n datguddio'r holl daliadau posibl eraill.

Pan fydd y tebygolrwydd o gael setliad ar gyfer cais unigol dros 50%, darperir ar gyfer yr holl geisiadau am golledion a thaliadau arbennig. Pan ellir gwneud amcangyfrifon dibynadwy, dylid darparu ar gyfer achosion o esgeulustod clinigol na dderbyniwyd cais yn eu herbyn hyd yma, yn yr un modd. Caiff ad-daliadau disgwyliedig gan Gronfa Risg Cymru eu cynnwys yn y dyledwyr. Ar gyfer y ceisiadau hynny lle bo'r tebygolrwydd o gael setliad yn is na 50%, dylid datguddio'r rhwymedigaeth fel rhwymedigaeth annisgwyl.

**1.14 Costau pensiwn**
Mae darpariaethau Cynllun Pensiwn y GIG yn darparu ar gyfer gweithwyr cyfredol a blaenorol. Mae'r cynllun yn gynllun buddiant diffiniedig heb ei ariannu, buddiant diffiniedig sy'n darparu ar gyfer gweithwyr y GIG, meddygon teulu a chyrff eraill, a ganiateir o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol. O ganlyniad nid yw'n bosibl i'r ymddiriedolaeth ddynodi ei siâr o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun. Felly, caiff y cynllun ei gyfrif fel cynllun cyfrannol diffiniedig ac mae cost y cynllun yn gyfartal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am y cyfnod cyfrifo. £8,429,886 oedd cyfanswm cyfraniad taladwy'r cyflogwr yn 2004-05 (3,912,425 yn 2003-04). £1.1 biliwn ydy gweddill tebygol y cynllun yn ôl prisiad Actiwari'r Llywodraeth o'r cynllun diwethaf am y cyfnod 1 Ebrill 1994 i 31 Mawrth 1999. Daeth y prisiad i'r casgliad bod y cynllun yn parhau i weithredu ar sail ariannol sicr. 14% yw cyfraddau cyfraniad cyflogwyr, adolygir y cyfraniadau yma fel rhan o'r ymchwiliad ar 31 Mawrth 2004.

Caiff y Cynllun ei brisio'n llawn bob pedair blynedd (bob pum mlynedd o'r blaen). Cynhaliwyd y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2003. Rhwng prisiadau, mae Actiwari'r Llywodraeth yn rhoi diweddariad o rwymedigaethau'r cynllun. Mae asesiad diweddaraf ymrwymiadau'r Cynllun yn adroddiad Actiwari'r Cynllun, sy'n rhan o Gyfrif Adnoddau Cynllun Pensiwn y GIG (Lloegr a Chymru), a gyhoeddir yn flynyddol. Gellir edrych ar y cyfrifon ar wefan Asiantaeth Bensiynau'r GIG yn www.nhspa.gov.uk. Mae copiau ar gael o Lyfrfa Ei Mawrhydi.

Caiff cyrff y GIG gyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i godi cyfraniad costau pensiwn cyflogwr ar dreuliau gweithredu fel a phan y byddant yn ddyledus. Caiff cyfraddau cyfraniad cyflogwr eu hadolygu bob pedair blynedd yn dilyn prisiad o'r cynllun gan Actiwari'r Llywodraeth. Ar gyngor yr actiwari gallai'r cyfraniad amrywio o bryd i'w gilydd i adlewyrchu newidiadau yn ymrwymiadau'r cynllun. Yn y prisiad diwethaf y seiliwyd cyfraddau'r cyfraniad arno (31 Mawrth 1999) gosodwyd cyfraddau cyfraniad cyflogwr ar gyfer 2003-04 ar 14% o dâl pensiynadwy (2002-03: 7%). Tan 2002-03 roedd Trysorlys ei Mawrhydi yn talu costau Mynegeio Prisiau Adwerthol Cynllun Pensiwn y GIG yn uniongyrchol ond fel rhan o'r Setliad Adolygu Gwario, cafodd y costau yma eu datganoli'n llawn. Ar gyfer 2003-04, cadwyd yr arian ychwanegol fel Cyllideb Ganolog gan yr Adran Iechyd a thalwyd hwy'n uniongyrchol i Asiantaeth Bensiynau'r GIG ac mae cyfraniad y cyflogwyr wedi aros ar 7%. O 2004-05 datganolir yr arian yma'n llawn i gyflogwyr Cynllun Pensiwn y GIG a bydd cyfradd cyfraniad y cyflogwyr yn codi i 14%. Mae gweithwyr yn talu 6% (staff sy'n gwneud gwaith â llaw 5%) o'u tâl pensiynadwy.

Mae'r cynllun yn gynllun "cyflog terfynol". Fel arfer seilir pensiwn blynyddol ar 1/80 o'r gorau o dâl pensiynadwy y dair blynedd olaf am bob blwyddyn o wasanaeth. Mae swm un taliad sy'n gyfwerth fel arfer â phensiwn 3 blynedd yn daladwy ar ymddeoliad. Rhoir cynnydd blynyddol ar daliadau pensiwn yn ôl cyfraddau a ddiffiniwyd gan y Ddeddf (Cynnydd) Pensiynau 1971, a seilir hwy ar newidiadau mewn prisiau gwerthu yn y deuddeg mis yn diweddu 30 Medi yn y flwyddyn galendr flaenorol. Ar farwolaeth, mae pensiwn o 50% o bensiwn yr aelod fel arfer yn daladwy i'r priod sy'n goroesi.

Mae pensiwn a delir yn gynnar, gydag ychwanegiad, ar gael i aelodau'r cynllun sy'n methu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol yn barhaol oherwydd salwch neu analluedd. Mae tâl marwolaeth o ddwywaith tâl pensiynadwy blwyddyn derfynol am farwolaeth mewn gwasanaeth yn daladwy, a hyd at bum gwaith eu pensiwn am farwolaeth wedi ymddeoliad, llai pensiwn a dalwyd yn barod, yn amodol ar uchafswm cyfwerth â dwywaith tâl pensiynadwy blwyddyn derfynol yr aelod llai ei gyfandaliad ar ymddeoliad i'r rhai hynny sy'n marw ar ôl ymddeol, yn daladwy.

Mae'r Cynllun yn rhoi'r cyfle i aelodau gynyddu eu buddiannau drwy brynu arian Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs) a ddarperir gan banel cydnabyddedig o gwmniau bywyd. O dan y trefniant gall gweithwyr wneud cyfraniadau i wella eu buddiannau pensiwn. Mae'r buddiannau sy'n daladwy yn gysylltiedig yn uniongyrchol â gwerth y buddsoddiadau a wnaethpwyd.

Ni chaiff costau pensiwn ychwanegol sy'n deillio o ymddeoliadau cynnar eu hariannu gan y cynllun ac eithrio pan fydd yr ymddeoliad cynnar o ganlyniad i salwch. Ar gyfer ymddeoliadau cynnar na chânt eu hariannu gan y cynllun caiff cyfanswm y rhwymedigaeth ar gyfer y costau ychwanegol ei godi ar y cyfrif incwm a gwariant ar yr adeg y mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymo ei hun i'r ymddeoliad, beth bynnag fo'r dull o dalu.

**1.15 Adnoddau hylifol**
Caiff adneuon a buddsoddiadau eraill y gellir eu newid yn rhwydd yn symiau penodol o arian am eu symiau cludo neu'n agos iddynt, eu trin fel adnoddau hylifol yn y datganiad llif arian. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn dal unrhyw fuddsoddiadau gyda dyddiadau aeddfedu sy'n mynd y tu hwnt i flwyddyn o'r dyddiad prynu.

**1.16 Treth ar werth**
Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau'r Ymddiriedolaeth y tu allan i faes TAW ac, ar y cyfan, nid yw treth all-lif yn berthnasol ac nid yw treth mewnbwn ar bethau a brynir yn adferadwy. Codir TAW nad yw'n adferadwy ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei chynnwys yng nghost prynu cyfalafog asedau sefydlog. Lle bo treth all-lif yn cael ei chodi neu TAW mewnlif yn adferadwy, caiff y symiau eu datgan net o TAW.

**1.17 Arian Tramor**
Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosglwyddo'n sterling ar y cyfraddau cyfnewid sy'n gyfredol ar ddyddiadau'r trafodion. Rhoddir yr enillion a'r colledion cyfnewid dilynol ar y Cyfrif Incwm a Gwariant.

**1.18 Asedau trydydd parti**
Nid yw asedau sy'n perthyn i drydydd parti (fel arian sy'n cael ei gadw ar ran Cleifion) yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon gan nad oes gan yr Ymddiriedolaeth ddiddordeb manteisiol ynddynt. Rhoir manylion asedau trydydd parti yn nodyn 28 y cyfrifon.

**1.19 Difidendau Cyfalaf Difidend Cyhoeddus**
Caiff taliad, sy’n adlewyrchu rhagolwg cost y cyfalaf a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth GIG, ei dalu fel difidend cyfalaf difidend cyhoeddus. Amcangyfrifir y taliad ar y gwir gyfradd a osodir gan Drysorlys Ei Mawrhydi (3.5% ar hyn o bryd) ar ragolwg swm cario pob ased llai rhwymedigaethau, ac eithrio asedau a gafwyd yn rhodd ac arian gyda Swyddfa’r Tâl-feistr Cyffredinol.

**1.20 Cyllideb ar y Cyd**
Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud unrhyw drefniadau cyllideb ar y cyd gydag awdurdodau lleol.

## 2. Adrodd cylchrannol

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw gylchrannau busnes fel a ddiffiniwyd yn SSAP25 - Adrodd Cylchrannol.

## 3. Incwm o weithgareddau

| | £000 | 2003-04 £000 |
|---|---|---|
| Byrddau iechyd lleol | **103,663** | 93,940 |
| Comisiynu Iechyd Cymru | **10** | 0 |
| Ymddiriedolaethau GIG | **403** | 424 |
| Awdurdodau iechyd strategol ac ymddiriedolaethau gofal cychwynnol | **0** | 0 |
| Ymddiriedolaethau Sefydledig | **0** | 0 |
| Awdurdodau lleol | **676** | 525 |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | **5,471** | 1,312 |
| Heb fod yn rhai'r GIG: | | |
| Incwm cleifion preifat | **38** | 48 |
| Cleifion tramor (heb gytundeb) | **16** | 26 |
| Costau Deddf Traffig y Ffyrdd | **206** | 264 |
| Incwm arall o weithgareddau | **492** | 303 |
| **Cyfanswm** | **110,975** | 96,842 |

Mae incwm RTA yn amodol ar ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus o 8.7% i adlewyrchu cyfraddau casglu disgwyliedig.

## 4. Incwm gweithredu arall

| | £000 | 2003-04 £000 |
|---|---|---|
| Gwasanaethau cludiant cleifion | **46** | 58 |
| Addysg, hyfforddiant ac ymchwil | **2,237** | 2,096 |
| Cyfraniadau elusennol ac eraill at wariant | **402** | 360 |
| Trosglwyddo o gronfa wrth gefn asedau a gafwyd yn rhodd | **57** | 65 |
| Trosglwyddo o gronfa wrth gefn grantiau'r llywodraeth | **0** | 0 |
| Cynlluniau creu incwm nad ydynt yn seiliedig ar ofal cleifion | **69** | 52 |
| Incwm arall: | | |
| Darpariaeth gwasanaethau golchi, patholeg, cyflogau | **448** | 486 |
| Costau llety ac arlwyo | **707** | 803 |
| Ffïoedd mortiwari | **25** | 24 |
| Taliadau'r staff ar gyfer defnyddio ceir | **171** | 183 |
| Uned busnes | **0** | 0 |
| Eraill | **1,142** | 1,308 |
| **Cyfanswm** | **5,304** | 5,435 |

Mae'r eitemau canlynol wedi eu cynnwys o dan Eraill:

| | £000 |
|---|---|
| Secondiadau ac adlenwadau staff | 863 |
| Cyfraniadau gan gleientaid | 88 |
| Bwydydd lles | 48 |

## 5. Treuliau gweithredu

### 5.1 Mae treuliau gweithredu yn cynnwys

| | | 2003-04 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Nwyddau a gwasanaethau o gyrff eraill y GIG | **2,258** | 1,981 |
| Nwyddau a gwasanaethau o Ymddiriedolaethau Sefydledig eraill y GIG | **0** | 0 |
| Prynu gofal iechyd o gyrff nad ydynt yn y GIG | **128** | 7 |
| Costau'r cyfarwyddwyr | **448** | 558 |
| Costau'r staff | **88,808** | 76,771 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau - clinigol | **10,766** | 8,894 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau - cyffredinol | **1,730** | 1,960 |
| Sefydlu | **3,717** | 3,581 |
| Cludiant | **172** | 169 |
| Adeiladau | **4,558** | 4,509 |
| Dibrisiant a dileu | **2,890** | 2,640 |
| Amhariadau a gwrthdroadau ar asedau sefydlog | **0** | 0 |
| Ffïoedd archwilio | **133** | 124 |
| Taliadau eraill i'r archwilwyr | **1** | 0 |
| Colledion, taliadau arbennig a dyledion anadferadwy | **465** | 1,538 |
| Treuliau gweithredu eraill | **835** | 1,127 |
| **Cyfanswm** | **116,909** | 103,859 |

### 5.2 Colledion, taliadau arbennig a dyledion anadferadwy: taliadau a godir ar dreuliau gweithredu

| | | 2003-04 |
|---|---|---|
| **Cynnydd/gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer taliadau yn y dyfodol:** | **£000** | £000 |
| Esgeulustod clinigol | **1,115** | 239 |
| Anaf personol | **236** | 350 |
| Yr holl golledion eraill a thaliadau arbennig | **68** | 34 |
| Ffïoedd cyfreithiol amddiffyn a chostau gweinyddol | **5** | 105 |
| Cynnydd/gostyngiad gros yn y ddarpariaeth ar gyfer taliadau yn y dyfodol | **1,424** | 728 |
| | | |
| Cyfraniad i'r Gronfa Risg Cymru | **0** | 1,001 |
| Premiwm ar gyfer trefniadau eraill yswiriant | **0** | 0 |
| Dyledion anadferadwy | **23** | 19 |
| **Llai**: incwm a dderbyniwyd/ sy'n ddyledus o Gronfa Risg Cymru | **(982)** | (210) |
| **Cyfanswm y gost** | **465** | 1,538 |

Mae anaf personol yn cynnwys £109,749 (2003-04 £305,307) am fuddiannau anaf parhaol.

Ni wnaeth Ymddiriedolaeth gyfraniadau I Gronfa Risg Cymru yn 2004-05.
Gwnaed y cyfraniadau yn uniongyrchol I Gronfa Risg Cymru gan y Cynulliad.

**5.3 Ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredu na ellir eu canslo**

| | Tir ac adeiladau | | Prydlesau eraill | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2003-04 | | 2003-04 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Prydlesau gweithredu sy'n dod i ben: | | | | |
| O fewn 1 flwyddyn | **0** | 0 | **100** | 180 |
| Rhwng 1 a 5 mlynedd | **0** | 0 | **208** | 240 |
| Ar ôl 5 mlynedd | **0** | 0 | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | 0 | **308** | 420 |

Mae treuliau gweithredu yn cynnwys £504,028 ar gyfer gweithredu rhenti prydles (2003-04 £505,407) a £77,798 ar gyfer llogi cyfarpar/peiriannau (2003-04 £120,868).

| **5.4 Taliadau'r cyfarwyddwyr** | **Taliadau fel Cyfarwyddwr** | **Taliadau eraill** | **Cyfanswm** | 2003-04 |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | £000 |
| | | | | **0** |
| Taliadau cyfarwyddwyr anweithredol | 78 | 0 | **78** | 70 |
| Taliadau cyfarwyddwyr gweithredol: | | | | |
| cyflogau sylfaenol | 298 | 126 | **424** | 413 |
| buddiannau | 1 | 2 | **3** | 2 |
| bonws yn ôl perfformiad | 0 | 0 | **0** | 0 |
| cyfraniadau pensiwn a dalwyd | 38 | 17 | **55** | 28 |
| Is-gyfanswm | 415 | 145 | **560** | 513 |
| Iawndal ar gyfer colli swydd | 0 | 0 | **0** | 0 |
| Pensiynau ar gyfer cyfarwyddwyr a chyn gyfarwyddwyr (ar wahân i gynllun pensiwn y GIG) | 0 | 0 | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | 415 | 145 | **560** | 513 |

Ni ildiodd yr un Cyfarwyddwr i unrhyw daliadau ac ni dalwyd unrhyw lwfansau yn lle hyn.

**5.4 Taliadau'r cyfarwyddwyr (parhad):**

Mae tâl y cadeirydd, y prif weithredwr a'r cyfarwyddwr ar y cyflog mwyaf (os nad y prif weithredwr sydd ar y cyflog mwyaf) fel a ganlyn:

| | **Taliadau fel cyfarwyddwr £000** | **Taliadau eraill £000** | **Cyfanswm £000** | 2003-04 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cadeirydd** | | | | |
| Tâl sylfaenol | 35 | 0 | **35** | 31 |
| Buddiannau | 1 | 0 | **1** | 1 |
| | 36 | 0 | **36** | 32 |
| **Prif Weithredwr** | | | | |
| Cyflog sylfaenol | 91 | 0 | **91** | 89 |
| Buddiannau | 0 | 0 | **0** | 0 |
| Bonws yn ôl perfformiad | 0 | 0 | **0** | 0 |
| | 91 | 0 | **91** | 89 |
| Cyfraniadau pensiwn | 13 | 0 | **13** | 7 |
| | 104 | 0 | **104** | 96 |
| **Y cyfarwyddwr ar y cyflog mwyaf*** | | | | |
| Cyflogau sylfaenol | 22 | 92 | **114** | 107 |
| Buddiannau | 0 | 2 | **2** | 1 |
| Bonws yn ôl perfformiad | 0 | 0 | **0** | 0 |
| | 22 | 94 | **116** | 108 |
| Cyfraniadau pensiwn | 3 | 13 | **16** | 8 |
| **Cyfanswm** | 25 | 107 | **132** | 116 |

* os nad y prif weithredwr sydd ar y cyflog mwyaf

## 5.5 Cyflog a hawliau pensiwn uwch reolwyr

| Tâl | Cyflog (Bandiau £5mil) | 2004-05 Tâl Arall (Bandiau £5mil) | Buddiannau mewn nwyddau wedi talgrynnu I'r £100 agosaf | Cyflog | 2003-04 Tâl Arall | Buddiannau mewn Nwyddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw a theitl** | **£000** | **£000** | **£00** | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfarwyddwyr gweithredol** | | | | | | |
| Mr F O'Sullivan<br>Prif Weithredwr o 1 Gorffennaf 2003 | 90 - 95 | 0 | 0 | 65 - 70 | 0 | 0 |
| Mr KT Jones<br>Prif Weithredwr Dros Dro i 30 Mehefin 2003<br>Cyfarwyddwr Cyllid o 1 Gorffennaf 2003 | * | * | * | * | * | * |
| Mr AR Barstow<br>Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro i 30 Mehefin 2003 | - | - | - | * | * | * |
| Mrs ME Hodgeon<br>Cyfarwyddwr Nyrsio a Gwasanaethau Cymunedol | * | * | * | * | * | * |
| Dr P Jackson<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Meddygol ( Aciwt a Chymunedol), ymddeolodd ar 28 Rhagfyr 2003, fe'I ailbenodwyd rhan amser o 1 Chwefror 2004 ac ymddeolodd ar 31 rhagfyr 2004 | * | * | * | * | * | * |
| Dr CF Merrill<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Meddygol ( Aciwt a Chymunedol) o 1 Ionawr | 10-15 | 30 - 35 | 1 | - | - | - |
| Dr MP Sargeant<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Meddygol (Iechyd Meddwl) | 20 - 25 | 90 - 95 | 17 | * | * | * |
| Ms JS Wilkinson<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 60 - 65 | 0 | 1 | 55 - 60 | 0 | 0 |
| Mr IB McKechnie<br>Cyfarwyddwr Iechyd meddwl a Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 60 - 65 | 0 | 3 | * | * | * |
| Miss D Marshall<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Aciwt a Chymunedol o 10 Mai 2004 | 55 - 60 | 0 | 0 | - | - | - |
| Mr DT Williams<br>Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Anabledd Dysgu i 14 Ebrill 2003 | - | - | - | 5 - 10 | 0 | 0 |
| **Cyfarwyddwyr Anweithredol** | | | | | | |
| Mrs LJ George<br>Cadeirydd | 30 - 35 | 0 | 12 | 30 - 35 | 0 | 1 |
| Yr Athro JL Stoddart<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 5 - 10 | 0 | 17 | 5 - 10 | 0 | 2 |
| Mr EK James<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 5 - 10 | 0 | * | 5 - 10 | 0 | 0 |
| Mr K Davies<br>Cyfarwyddwr Anweithredol i 6 Chwefror 2004 | - | - | - | 5 - 10 | 0 | 0 |
| Mrs E Hardcastle<br>Cyfarwyddwr Anweithredol i 31 Mawrth 2004 | - | - | - | 5 - 10 | 0 | 0 |
| Mrs MH Thomas<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 5 - 10 | 0 | 2 | 5 - 10 | 0 | 0 |
| Dr RM Evans<br>Cyfarwyddwr Anweithredol o 1 Ebrill 2004 | 5 - 10 | 0 | 5 | - | - | - |
| Mr J Thomas-Ferrand<br>Cyfarwyddwr Anweithredol o 1 Ebrill 2004 | 5 - 10 | 0 | 4 | - | - | - |

* uchod yn dynodi caniatâd i ddatgelu wedi ei atal yn unol â Deddf Gwarchod Data 1998

**5.5 (Parhad) Cyflog a hawliau pensiwn uwch reolwyr**

**Buddiannau Pensiwn**

| Enw a theitl | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig yn 60 oed<br>Bandiau £2.5 mil<br>**£000** | Cyfanswm pensiwn cronedig a chyfandaliad cysylltiedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 2005<br>Bandiau £5 Mil<br>**£000** | Gwerth trosglwyddo arian a'r hyn sy'n cyfateb ar 31 Mawrth 2005<br>**£000** | Gwerth trosglwyddo arian a'r hyn sy'n cyfateb ar 31 Mawrth 2004<br>**£000** | Gwir gynnydd yng ngwerth trosglwyddo arian<br>**£000** | Cyfraniad Cyflogwr i bensiwn deiliad diddordeb<br>I'r £100 agosaf<br>**£100** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr gweithredol** | | | | | | |
| Mr F O'Sullivan | * | * | * | * | * | * |
| Mr KT Jones | * | * | * | * | * | * |
| Mrs ME Hodgeon | * | * | * | * | * | * |
| Dr P Jackson | * | * | * | * | * | * |
| Dr CF Merrill | * | * | * | * | * | * |
| Dr MP Sargeant | * | * | * | * | * | * |
| Mrs JS Wilkinson | * | * | * | * | * | * |
| Mr IB McKechnie | * | * | * | * | * | * |
| Miss D Marshall | * | * | * | * | * | * |

** uchod yn dynodi caniatâd i ddatgelu wedi ei atal yn unol â Deddf Gwarchod Data 1998*

Oherwydd nad yw Aelodau Anweithredol yn cael tâl pensiynadwy, ni fydd unrhyw gofnod o ran pensiynau i Aelodau Anweithredol.

Gwerth Trosglwyddo Arian a'r Hyn sy'n Cyfateb (CETV) ydy asesiad actiwari o werth cyfalaf buddiannau cynllun pensiwn cronedig aelod ar adeg arbennig. Y buddiannau a brisir ydy buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn dâl a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae ffigyrau'r pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig a'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth gyflawn o'r cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth mewn uwch swydd y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Mae ffigyrau'r CETV, ac o 2004-2005 manylion pensiwn arall, yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi eu trosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun. Mae CETV yn cael ei amcangyfrif o fewn y canllawiau a'r fframwaith a bennwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwariaid.

Gwir Gynnydd yn CETV - Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn CETV sy'n cael ei ariannu i bob pwrpas gan y cyflogwr. Mae'n cymryd i ystyriaeth y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau cyffredin prisiad y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## 6. Costau'r gweithwyr a nifer y gweithwyr

### 6.1 Costau'r gweithwyr

| | Staff Parhaol | Staff i mewn ar secondiad | Staff asiantaeth, dros dro a chontract | **Cyfanswm** | 2003-04 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | £000 |
| Cyflogau ac enillion | 72,431 | 314 | 2,503 | **75,269** | 68,497 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 5,263 | 0 | 0 | **5,263** | 4,849 |
| Costau pensiwn | 8,430 | 0 | 0 | **8,430** | 3,912 |
| Costau pensiwn eraill | 235 | 0 | 0 | **235** | 0 |
| **Cyfanswm** | 86,359 | 314 | 2,503 | **89,197** | 77,258 |

Yn ystod y flwyddyn cafodd cyflogau o £220,384 (2003-04, (£125,802) eu cyfalafu ac nid ydynt wedi cael eu cynnwys uchod.

### 6.2 Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd

| | Staff Parhaol | Staff i mewn ar secondiad | Staff asiantaeth, dros dro a chontract | **Cyfanswm** | 2003-04 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** |
| Meddygol a deintyddol | 207 | 2 | 10 | **219** | 218 |
| Staff ambiwlans | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 |
| Gweinyddol a staff yr ystadau | 501 | 0 | 0 | **501** | 457 |
| Cynorthwywyr gofal iechyd a staff cefnogi eraill | 522 | 0 | 0 | **522** | 437 |
| Nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd | 1,200 | 0 | 11 | **1,211** | 1,290 |
| Pobl sy'n dysgu i fod yn nyrsys, yn fydwragedd ac yn ymwelwyr iechyd | 27 | 0 | 0 | **27** | 21 |
| Staff gwyddonol, therapiwtig a thechnegol | 382 | 1 | 4 | **387** | 374 |
| Staff gofal cymdeithasol | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,839** | **3** | **25** | **2,867** | 2,797 |

### 6.3 Buddiannau'r gweithiwr

Nid oes gan yr ymddiriedolaeth gynllun buddiant i'r gweithiwr ac ni thalwyd unrhyw fuddiannau.

## 6.4 Costau rheoli'r Ymddiriedolaeth

| | | | 2003-04 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **Canran cyfanswm yr incwm** | £000 | Canran cyfanswm yr incwm |
| Costau rheoli'r Ymddiriedolaeth | **4,880** | **4.2%** | 4,250 | 4.2% |
| Incwm | **116,323** | | 102,277 | |

Cesglir y wybodaeth hon am gostau gan ddefnyddio'r diffiniad ar gyfer costau rheoli'r Ymddiriedolaeth a gynhwysir yn WHC(2000)113.

## 6.5 Costau ymddeol o ganlyniad i salwch

Yn 2004-05 (blwyddyn gynt 2003-04) roedd 12 (11) o ymddeoliadau cynnar o'r Ymddiriedolaeth a gytunwyd ar sail salwch. Costau pensiwn ychwanegol amcangyfrifedig yr ymddeoliadau salwch hyn (a amcangyfrifir ar gyfartaledd ac a delir gan Gynllun Pensiwn y GIG) fydd £836,189 (£647,840).

# 7. Polisi Talu'r Sector Cyhoeddus - Mesur Cydymffurfio

### 7.1 Côd talu'n brydlon - mesur cydymffurfio

Mae'r Cynulliad yn mynnu bod yr Ymddiriedolaethau'n talu eu holl gredydwyr yn unol â chôd talu'n brydlon y CBI a rheolau Cyfrifo'r Llywodraeth. Mae'r Cynulliad wedi gosod fel rhan o dargedau ariannol yr Ymddiriedolaeth yr angen i dalu 95% o'r nifer y credydwyr nad ydynt yn y GIG o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r cyntaf.

| | | | 2003-04 |
|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **£000** | £000 |
| **GIG** | | | |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd 2004-05 | **1,659** | **4,095** | 3,929 |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed | **1,502** | **3,635** | 3,652 |
| Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed | **90.5%** | **88.8%** | 92.9% |
| **Heb fod yn rhai'r GIG** | | | |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd 2004-05 | **44,599** | **30,788** | 30,523 |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed | **41,913** | **29,007** | 28,490 |
| Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed | **94.0%** | **94.2%** | 93.3% |
| **Cyfanswm** | | | |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd 2004-05 | **46,258** | **34,883** | 34,452 |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed | **43,415** | **32,642** | 32,142 |
| Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed | **93.9%** | **93.6%** | 93.3% |

### 7.2 Deddf (Llog)Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr 1998

| | | 2003-04 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Symiau a gynhwysir o fewn y Llog sy'n Daladwy (nodyn 9) sy'n deillio o geisiadau a wnaed o dan y ddeddfwriaeth hon a iawndal a dalwyd i gwrdd â chostau adfer dyled. | **0** | 0 |

## 8. Elw (colled) ar waredu asedau sefydlog

| Cyfrifir yr elw / (colled) ar waredu asedau sefydlog fel a ganlyn: | | 2003-04 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Elw ar waredu tir ac adeiladau | **0** | 0 |
| Colled ar waredu tir ac adeiladau | **0** | (92) |
| Elw ar waredu cyfarpar ac offer | **0** | 1 |
| Colled ar waredu cyfarpar ac offer | **(26)** | (14) |
| Elw ar waredu asedau sefydlog aniriaethol | **0** | 0 |
| Colled ar waredu asedau sefydlog aniriaethol | **0** | 0 |
| | **(26)** | (105) |

## 9. Llog sy'n daladwy

| | | 2003-04 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Benthyca gan y Llywodraeth | **0** | 0 |
| Prydlesau cyllid a chynlluniau PFI | **(8)** | 1 |
| Eraill | **0** | 0 |
| | **(8)** | 1 |

## 10. Asedau sefydlog aniriaethol

| | **Trwyddedau Meddalwedd** | **Trwyddedau a nodau masnachu** | **Patentau** | **Gwariant Datblygiad** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Costau gros ar 1 Ebrill | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Mynegrifau | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Amhariadau | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailddosbarthiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailbrisiadau eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ychwanegiadau | 13 | 0 | 0 | 0 | **13** |
| Asedau a waredwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Costau gros ar 31 Mawrth | **13** | **0** | **0** | **0** | **13** |
| | | | | | |
| Amorteiddiad cronedig ar 1 Ebrill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynegrifau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Amhariadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ailddosbarthiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ailbrisiadau eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Asedau a waredwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Amorteiddiad cronedig ar 31 Mawrth | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth** | **13** | **0** | **0** | **0** | **13** |

# 11. Asedau sefydlog diriaethol

## 11.1 Asedau sefydlog ar ddyddiad y fantolen:

| | Tir | Adeiladau ac eithrio tai | Tai | Asedau sy'n cael eu hadeiladu a thaliadau ar y cyfrif | Cyfarpar a pheiriannau | Offer cludiant | Technoleg gwybodaeth | Dodrefn a ffitiadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Ar 1 Ebrill 2004 | 4,113 | 48,015 | 1,190 | 9,495 | 10,860 | 89 | 2,426 | 74 | **76,262** |
| Mynegrifau | 288 | 3,666 | 95 | 719 | 234 | 2 | 52 | 1 | **5,057** |
| Ychwanegiadau: | | | | | | | | | |
| - a brynwyd | 700 | 4,844 | 0 | 5,585 | 674 | 0 | 350 | 0 | **12,153** |
| - a gafwyd yn rhodd | 0 | 20 | 0 | 0 | 104 | 0 | 0 | 0 | **124** |
| - oddi wrth y Llywodraeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailddosbarthiadau | 20 | 11,988 | 0 | (12,306) | 298 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Amhariadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailbrisiadau eraill yn ystod y flwyddyn | (210) | (8,973) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(9,183)** |
| Asedau a waredwyd | 0 | (51) | 0 | 0 | (943) | (25) | (288) | (7) | **(1,314)** |
| **Ar 31 Mawrth 2005** | 4,911 | 59,509 | 1,285 | 3,493 | 11,227 | 66 | 2,540 | 68 | **83,099** |
| **Dibrisiant** | | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2004 | 0 | 2,538 | 54 | 0 | 7,320 | 81 | 2,077 | 74 | **12,144** |
| Mynegrifau | 0 | 194 | 4 | 0 | 158 | 2 | 45 | 1 | **404** |
| Ailddosbarthiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Amhariadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gwrthdroi amhariadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailbrisiadau eraill yn y flwyddyn | 0 | (330) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(330)** |
| Asedau a waredwyd | 0 | (51) | 0 | 0 | (869) | (25) | (289) | (7) | **(1,241)** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 1,945 | 39 | 0 | 837 | 2 | 67 | 0 | **2,890** |
| **Ar 31 Mawrth 2005** | 0 | 4,296 | 97 | 0 | 7,446 | 60 | 1,900 | 68 | **13,867** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2004 | 4,113 | 45,477 | 1,136 | 9,495 | 3,540 | 8 | 349 | 0 | **64,118** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2005** | 4,911 | 55,213 | 1,188 | 3,493 | 3,781 | 6 | 640 | 0 | **69,232** |

**Gwerth llyfr net asedau o dan brydlesi cyllid a chontractau hurbwrcas**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 0 | 74 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **74** |

**Cyfanswm dibrisiant yn y cyfrif Incwm a Gwariant o ran asedau o dan brydlesi cyllid a chontractau hurbwrcas:**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 0 | 33 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **33** |

O’r gwerthoedd llyfr net ar 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2005 ni phrisiwyd yr un adeilad ar werth y farchnad agored.

Rhoir y ffigurau ar gyfer tir rhydd-ddaliol ac adeiladau yn eu ffurf gros gyda dibrisiant cronnol ar wahân.

## 11.2 Mae'r buddsoddiadau asedau sefydlog ar ddyddiad y fantolen a gynhwyswyd yn yr asedau sefydlog yn cynnwys:

Nid oedd gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw fuddsoddiadau asedau sefydlog ar ddyddiad y fantolen.

**11.3 Mae gwerth llyfr net tir ac adeiladau ar ddyddiad y fantolen fel a ganlyn:**

| | | 31 Mawrth 2004 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Rhydd-ddaliol | **61,238** | 50,626 |
| Prydles hir | **0** | 0 |
| Prydles fer | **74** | 100 |
| **Cyfanswm** | **61,312** | 50,726 |

## 12. Stociau a gwaith ar y gweill

| | | 31 Mawrth 2004 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Deunyddiau crai a defnyddiadwy | **1,495** | 1,502 |
| Gwaith ar y gweill | **0** | 0 |
| Nwyddau wedi'u prosesu a gwblhawyd | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,495** | 1,502 |

## 13. Dyledwyr

| | | 31 Mawrth 2004 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | **£000** | £000 |
| Cronfa Risg Cymru | **1,678** | 823 |
| Dyledwyr y GIG | **4,344** | 2,374 |
| Dyledwyr difidend PDC | **352** | 0 |
| Dyledwyr eraill | **1,585** | 1,285 |
| Darpariaeth ar gyfer dyledion anadferadwy | **(323)** | (300) |
| Blaendaliadau eraill ac incwm a gronnwyd | **389** | 442 |
| Is-gyfanswm | **8,025** | 4,624 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Cronfa Risg Cymru | **0** | 0 |
| Dyledwyr y GIG | **0** | 0 |
| Blaendaliadau eraill ac incwm a gronnwyd | **0** | 0 |
| Dyledwyr eraill | **0** | 0 |
| Is-gyfanswm | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | **8,025** | 4,624 |

## 14. Buddsoddiadau

| | | 31 Mawrth 2004 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Gwarantau'r Llywodraeth | **0** | 0 |
| Awdurdodau lleol | **0** | 0 |
| Eraill | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** |

## 15. Credydwyr

### 15.1 Cyfrifir y credydwyr ar ddyddiad y fantolen fel a ganlyn:

| | | 31 Mawrth 2004 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| | **£000** | £000 |
| Gorddrafftiau banc | **0** | 0 |
| Llog sy'n daladwy | **0** | 0 |
| Blaenswm benthyciad/brocerdal | **0** | 0 |
| Taliadau a dderbyniwyd ar gyfrif | **0** | 0 |
| Credydwyr y GIG | **1,812** | 1,102 |
| Credydwyr masnach nad ydynt yn rhai'r GIG - cyllid | **822** | 972 |
| Credydwyr masnach nad ydynt yn rhai'r GIG - cyfalaf | **328** | 876 |
| Credydwyr masnach nad ydynt yn rhai'r GIG - colledion a thaliadau arbennig | **0** | 0 |
| Treth a chostau nawdd cymdeithasol | **1,181** | 96 |
| Difidend Difidend Cyfalaf Cyhoeddus sy'n daladwy | **0** | 51 |
| Ymrwymiadau o dan brydles cyllid a chontract hurbwrcas | **29** | 32 |
| Ymrwymiadau o dan gynlluniau PFI | **0** | 0 |
| Credydwyr eraill - budd-dâl ymddeol | **0** | 0 |
| Credydwyr eraill - yr holl gredydwyr eraill | **2,231** | 932 |
| Arian a gronnwyd | **2,152** | 1,489 |
| Incwm a ohiriwyd | **120** | 135 |
| Is-gyfanswm | **8,675** | 5,685 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Blaenswm benthyciad/brocerdal | **11,038** | 8,594 |
| Ymrwymiadau o dan brydles cyllid a chontract hurbwrcas | **27** | 57 |
| Ymrwymiadau o dan gynlluniau PFI | **0** | 0 |
| Credydwyr y GIG | **0** | 0 |
| Credydwyr masnach nad ydynt yn rhai'r GIG - colledion a thaliadau arbennig | **0** | 0 |
| Incwm a ohiriwyd | **0** | 0 |
| Eraill | **0** | 0 |
| Is-gyfanswm | **11,065** | 8,651 |
| **Cyfanswm** | **19,740** | 14,336 |

Mae credydwyr y GIG yn cynnwys:

£1,053,879 cyfraniadau pensiwn sy'n weddill ar 31 Mawrth 2005 (£641,701 at 31 Mawrth 2004).

**15.2 Benthyciadau/brocerdal**

| Symiau sy'n ddyledus: | Cyfanswm £000 | 31 Mawrth 2004 £000 |
|---|---|---|
| Mewn blwyddyn neu lai na blwyddyn | **0** | 0 |
| Rhwng blwyddyn a dwy flynedd | **0** | 0 |
| Rhwng dwy flynedd a phum mlynedd | **8,238** | 0 |
| Mewn pum mlynedd neu fwy | **2,800** | 8,594 |
| Is-gyfanswm | **11,038** | 8,594 |
| I'w ad-dalu'n llawn o fewn pum mlynedd | **8,238** | 0 |
| I'w ad-dalu'n llawn ar ôl pum mlynedd, nid trwy randaliadau | **0** | 0 |
| I'w ad-dalu'n llawn neu'n rhannol ar ôl pum mlynedd trwy randaliadau | **2,800** | 8,594 |
| Is-gyfanswm | **11,038** | 8,594 |
| Cyfanswm i'w ad-dalu ar ôl pum mlynedd trwy randaliadau | **2,800** | 8,594 |

**Manylion benthyciad/brocerdâl:**

Derbyniwyd y Benthyciad PDC o £2.8m o'r Swyddfa Gymreig blaenorol ym mis Mawrth 1998. Bydd y benthyciad hwn yn cael ei ddileu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru pan fydd yr Ymddiriedolaeth wedi talu'r ffordd am ddwy flynedd yn olynol heb gyllid cymorth strategol. Derbyniwyd benthyciad o £2.444m gan y Cynulliad ym mis Mawrth 2003, benthyciad ychwanegol o £3.350m o'r Cynulliad yn y flwyddyn ariannol 2003-04 a benthyciad ychwanegol o £2.444m o'r Cynulliad yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Bydd rhaid ad-dalu'r benthyciadau hyn erbyn 31 Mawrth 2009.

**15.3 Ymrwymiadau prydles cyllid**

| Taladwy: | £000 | 31 Mawrth 2004 £000 |
|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | **24** | 24 |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | **24** | 48 |
| Ar ôl pum mlynedd | **0** | |
| Is-gyfanswm | **48** | 72 |
| Llai costau cyllid a ddyrennir i gyfnodau yn y dyfodol | **8** | 17 |
| **Cyfanswm** | **56** | 89 |

**15.4 Ymrwymiadau prydles cyllid**

Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud unrhyw gytundebau i brydlesu asedau dan brydles cyllid yn ystod y flwyddyn ariannol.

## 16. Darpariaethau ar gyfer ymrwymiadau a chostau

| | Ar 1 Ebrill 2004 £000 | Achosion setliad strwythuredig a drosgl'd i'r Gronfa Risg £000 | Trosgl'o darpar-iaethau i gredyd'r £000 | Darpar'thau newydd yn codi yn y flwyddyn £000 | Wedi eu gwrthdroi heb eu defnyddio £000 | Defn'iwyd y flwyddyn £000 | Dad-ddirwyn gostyngiad £000 | Ar 31 Mawrth 2005 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Esgeulustod clinigol | 682 | 0 | 0 | 1,751 | (636) | (521) | 0 | **1,276** |
| Anaf personol | 1,109 | 0 | 0 | 256 | (20) | (85) | 35 | **1,295** |
| Yr holl golledion eraill a thaliadau arbennig | 0 | 0 | 0 | 68 | 0 | (68) | 0 | **0** |
| Ffïoedd cyfreithiol yr amddiffyniad a gweinyddu arall | 197 | 0 | 0 | 191 | (186) | (56) | | **146** |
| Is-gyfanswm | 1,988 | 0 | 0 | 2,266 | (842) | (730) | 35 | **2,717** |
| Pensiynau yn ymwneud â: | | | | | | | | |
| chyn gyfarwyddwyr | 0 | | | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| staff eraill | 7 | | | 235 | (2) | 0 | 0 | **240** |
| Ailstrwythuro | 0 | | | 0 | 0 | 0 | | **0** |
| Eraill | 635 | | | 0 | (8) | (7) | | **620** |
| **Cyfanswm** | **2,630** | **0** | **0** | **2,501** | **(852)** | **(737)** | **35** | **3,577** |

**Amseriad disgwyliedig llif arian:**

| | O fewn 1 flwyddyn £000 | Rhwng 2-5 mlynedd £000 | Dros 5 mlynedd £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Esgeulustod clinigol | 1,276 | 0 | 0 | **1,276** |
| Anaf personol | 239 | 216 | 840 | **1,295** |
| Yr holl golledion eraill a thaliadau arbennig | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ffioedd cyfreithiol yr amddiffyniad a gweinyddu arall | 105 | 41 | 0 | **146** |
| Pensiynau - cyn gyfarwyddwyr | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Pensiynau - staff arall | 235 | 0 | 5 | **240** |
| Ailstrwythuro | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Arall | 620 | 0 | 0 | **620** |
| **Cyfanswm** | **2,475** | **257** | **845** | **3,577** |

Mae'r Ymddiriedolaeth yn amcangyfrif yn 2005-06 y bydd yn derbyn £1,157,524, ac yn 2006-07 a thu hwnt £Dim o Gronfa Risg Cymru mewn perthynas â cholledion a thaliadau arbennig (yn cynnwys esgeulustod clinigol).

Mae darpariaethau eraill yn cynnwys tâl dyledus i staff yn codi o Gyfarwyddyd Amser Gweithio Ewrop. Mae swm cyfatebol wedi ei gynnwys o dan dyledwyr gyda thaliadau i'w had-dalu gan gorff/gyrff olynol Awdurdod Iechyd Dyfed Powys.

## 17. Symudiadau ar gronfeydd wrth gefn

**Roedd y symudiadau ar gronfeydd wrth gefn yn y flwyddyn yn cynnwys y canlynol:**

| | Cronfa ailbrisio wrth gefn £000 | Cronfa wrth gefn ar gyfer ased a gafwyd yn rhodd £000 | Cronfa wrth gefn grantiau'r Llywodr'th £000 | Cronfeydd eraill wrth gefn £000 | Cronfa incwm a gwariant wrth gefn £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2004 fel y datganwyd yn flaenorol | 14,164 | 279 | 0 | 0 | (5,783) | **8,660** |
| Addasiad yn ystod y cyfnod blaenorol | | | | | 0 | **0** |
| Ar 1 Ebrill 2004 fel yr ailddatganwyd | 14,164 | 279 | 0 | 0 | (5,783) | **8,660** |
| Trosglwyddiad o'r cyfrif incwm a gwariant | | | | | (2,290) | **(2,290)** |
| Amhariadau | 0 | 0 | 0 | | | **0** |
| Gweddill/(diffyg) wrth ailbrisio/ mynegrifo asedau sefydlog | 1,151 | 9 | 0 | | | **1,160** |
| Trosglwyddiad o enillion/ (colledion) a wireddwyd | 0 | 0 | 0 | | 0 | **0** |
| Derbyn asedau a gafwyd yn rhodd/ grantiau'r llywodraeth | | 124 | 0 | | | **124** |
| Dibrisiad, amhariad a gwaredu asedau a gafwyd yn rhodd/ grantiau'r llywodraeth | | (57) | 0 | | | **(57)** |
| Trosglwyddiadau eraill rhwng cronfeydd cadw | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Symudiadau eraill cronfeydd wrth gefn | | | | 0 | | **0** |
| **Ar 31 Mawrth 2005** | **15,315** | **355** | **0** | **0** | **(8,073)** | **7,597** |

## 18. Nodiadau i'r datganiad llif arian

### 18.1 Cysoni'r arian gweithredu sy'n weddill a'r mewnlif arian net o'r gweithgareddau gweithredu:

| | £000 | 2003-04 £000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr arian gweithredu sy'n weddill/ (diffyg) | **(630)** | (1,582) |
| Cost dibrisio | **2,890** | 2,640 |
| Amhariad ar ased sefydlog a gwrthdroi | **0** | 0 |
| Trosglwyddiad o gronfa wrth gefn asedau a gafwyd yn rhodd | **(57)** | (65) |
| Trosglwyddiad o gronfa wrth gefn grantiau'r llywodraeth | **0** | 0 |
| (Cynnydd) /gostyngiad mewn stociau | **7** | (124) |
| (Cynnydd) /gostyngiad o ran dyledwyr | **(3,113)** | 650 |
| Cynnydd /(gostyngiad) o ran credydwyr | **2,896** | 1,286 |
| Cynnydd /(gostyngiad) o ran darpariaethau | **947** | 113 |
| Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu cyn costau ailstrwythuro | **2,940** | 2,918 |
| Taliadau mewn perthynas ag aildrefnu/ ailstrwythuro sylfaenol | **0** | 0 |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol** | **2,940** | 2,918 |

### 18.2 Cysoni'r llif arian net a symudiad mewn dyled net

| | £000 | 2003-04 £000 |
|---|---|---|
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian yn y cyfnod | **(1,857)** | 2,203 |
| Mewnlif arian o ddyled newydd | **0** | 0 |
| Mewnlif arian o flaenswm benthyciad/brocerdal | **(2,444)** | (3,350) |
| All-lif arian o ddyled a ad-dalwyd a thaliadau cyfalaf prydlesau cyllid | **32** | 47 |
| (Mewnlif)/all-lif arian o (ostyngiad)/gynnydd mewn adnoddau hylifol | **0** | 0 |
| Newid mewn dyled net o ganlyniad i lif arian | **(4,269)** | (1,100) |
| Newidiadau an-ariannol mewn dyled | **0** | (124) |
| Dyled net ar 1 Ebrill | **(5,916)** | (4,692) |
| **Dyled net ar 31 Mawrth** | **(10,185)** | (5,916) |

| **18.3 Dadansoddiad o'r newidiadau mewn dyled net** | **Ar 1 Ebrill 2004 £000** | **Llif arian £000** | **Newidiadau an-ariannol £000** | **Ar 31 Mawrth 2005 £000** |
|---|---|---|---|---|
| Arian yn y banc ac arian wrth gefn | 2,767 | (1,857) | | **910** |
| Gorddrafftiau banc | 0 | 0 | | **0** |
| Dyled sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Dyled sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Dyled sy'n ddyledus o flaenswm benthyciad/brocerdal | (8,594) | (2,444) | 0 | **(11,038)** |
| Prydlesau cyllid | (89) | 32 | 0 | **(57)** |
| Buddsoddiadau ased cyfredol | 0 | 0 | 0 | **0** |
| | **(5,916)** | **(4,269)** | **0** | **(10,185)** |

Mae'r arian yn y banc a'r arian wrth gefn ar 31 Mawrth 2005 yn cynnwys £599,523 (ar 31 Mawrth 2004, £2,121,398) mewn cyfrifon gyda Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol EM.

## 19. Ymrwymiadau cyfalaf

Swm yr ymrwymiadau o dan gontractau gwariant cyfalaf ar ddyddiad y fantolen oedd £8,495,687 (a £2,415,642 ar 31 Mawrth 2004).

## 20. Digwyddiadau ôl-fantolen

Ni chafodd yr Ymddiriedolaeth unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen a effeithiodd yn wirioneddol ar y cyfrifon.

## 21. Ymrwymiadau annisgwyl

| Ni ddarparwyd ar gyfer y symiau canlynol yng nghyfrifon 2004-05: | **£000** | 31 Mawrth 2004 £000 |
|---|---|---|
| Ceisiadau cyfreithiol ar gyfer esgeulustod meddygol neu gyflogwyr honedig | **7,516** | 19,247 |
| Dyledion amwys | **0** | 0 |
| Eraill | **0** | 0 |
| Cyfanswm yr hawliadau dadleuol | **7,516** | 19,247 |
| Swm a adferwyd o dan drefniadau yswiriant pe byddai'r hawliadau hyn yn llwyddiannus | **(6,626)** | (18,083) |
| Ymrwymiad annisgwyl net | **890** | 1,164 |

Gallai ceisiadau cyfreithiol eraill godi yn y dyfodol oherwydd digwyddiadau sy'n anhysbys. Ni ellir pennu'r gwariant a allai godi o geisiadau o'r fath ac ni wnaed unrhyw ddarpariaeth ar eu cyfer.

O ran Agenda ar gyfer Newid, oherwydd mai ychydig o swyddi a gafodd eu cymhathu ar draws Cymru, nid oedd modd gwneud amcangyfrif dibynadwy er mwyn darparu ar gyfer costau Agenda ar gyfer Newid ar lefel leol. O ganlyniad nid yw'n ofynnol gan y Cynulliad i'r Ymddiriedolaeth ddarparu ar gyfer y costau hyn yn y cyfrifon. Yn hytrach bydd y Cynulliad yn cyfrif am y ddarpariaeth ar wahân yng Nghyfrifon yr Adnoddau.

## 22. Colledion a thaliadau arbennig

**Colled gros i'r Trysorlys**

Nifer o achosion a symiau cysylltiedig a dalwyd neu a ddilewyd yn ystod y flwyddyn ariannol

| | Symiau a dalwyd yn y flwyddyn | | Cymeradwywyd i'w dileu yn y flwyddyn | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **£** | **Nifer** | **£** |
| Esgeulustod clinigol | 18 | 521,056 | 13 | 387,332 |
| Anaf personol | 20 | 84,788 | 7 | 35,706 |
| Pob colled a thaliad arbennig arall | 89 | 68,194 | 67 | 58,521 |
| **Cyfanswm** | 127 | 674,038 | 87 | 481,559 |

Dadansoddiad o achosion sy'n fwy na £100,000 a phob achos arall

| | Symiau a dalwyd yn y flwyddyn £ | Swm cronnol £ | Cymeradwywyd i'w dileu yn y flwyddyn £ |
|---|---|---|---|
| **Achosion mwy na £100,000** | | | |
| 00RR6MN0006 | 110,729 | 122,000 | 0 |
| 01RR6MN0006 | 223,500 | 223,500 | 223,500 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| **Is-gyfanswm** | **334,229** | **345,500** | **223,500** |
| **Pob achos arall** | 339,809 | 828,481 | 258,059 |
| **Cyfanswm achosion** | **674,038** | **1,173,981** | **481,559** |

## 23.1 Symudiadau yn arian y Llywodraeth

| | | 2003-04 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Gweddill/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn ariannol | **(382)** | (1,470) |
| Difidendau difidend cyfalaf cyhoeddus | **(1,908)** | (1,877) |
| **Is-gyfanswm** | **(2,290)** | (3,347) |
| Enillion/(colledion) o ailbrisio/mynegrifo asedau sefydlog a brynwyd | **1,151** | 3,023 |
| Amhariad asedau sefydlog | **0** | 0 |
| Difidend cyfalaf cyhoeddus newydd | **1,376** | 6,764 |
| Difidend cyfalaf cyhoeddus a ad-dalwyd | **0** | (344) |
| Difidend cyfalaf cyhoeddus ad-daladwy | **0** | 0 |
| Benthyciadau newydd gan y Llywodraeth | **2,444** | 3,350 |
| Benthyciadau'r Llywodraeth a ad-dalwyd | **0** | 0 |
| Trosglwyddiadau o'r gronfa wrth gefn ar gyfer asedau a gafwyd yn rhodd | **0** | 0 |
| Ychwanegiadau/trosglwyddiadau o'r gronfa wrth gefn ar gyfer grantiau'r llywodraeth | **0** | 0 |
| Ychwanegiad/(gostyngiad) mewn cronfeydd eraill wrth gefn | **0** | 0 |
| Ychwanegiad net/(gostyngiad) i gronfeydd wrth gefn y Llywodraeth | **2,681** | 9,446 |
| Cronfeydd agoriadol y Llywodraeth ar 1 Ebrill | **64,360** | 54,914 |
| Cyn tynnu o'r addasiad y cyfnod blaenorol o | **0** | 0 |
| **Arian y Llywodraeth wrth gau** | **67,041** | 64,360 |

## 23.2 Symudiadau mewn difidend cyfalaf cyhoeddus

| | | 2003-04 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2004 | **47,385** | 40,965 |
| CDC newydd a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn | **1,376** | 6,369 |
| CDC yn ddyledus ond heb ei gyhoeddi | **0** | 395 |
| CDC a ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn | **0** | (344) |
| CDC ad-daladwy | **0** | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2005** | **48,761** | 47,385 |

## 24. Targedau perfformiad ariannol

**Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyrraedd 2 allan o'i 3 tharged ariannol. Rhoddir y manylion isod:**

### 24.1 Talu'r ffordd o ran Incwm a Gwariant

| | |
|---|---|
| Gweddill/diffyg targed a gedwir | **(2,444)** |
| Gwir weddill/targed a gedwir | **(2,290)** |
| Amrywiad | **(154)** |

**Mae'r Ymddiriedolaeth wedi talu'r ffordd yn 2004-05.**
O 2003-04 mae'n ofynnol i ymddiriedolaethau gyrraedd sefyllfa ariannol heb ennill na cholli bob blwyddyn oni bai bod yna gynllun adfer wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn unol â WHC (2004)34 Dyletswyddau Ariannol Statudol Ymddiriedolaethau GIG a Byrddau Iechyd Lleol. Ble bydd cynllun adfer cymeradwy mewn bod bydd cyflawniad y dyletswydd heb ennill na cholli'n cael ei fesur dros oes y cynllun.

Cafodd cymeradwyaeth ffurfiol i Gynllun Adfer yr Ymddiriedolaeth (y Cynllun Newid ac Effeithlonrwydd Strategol) ei gyhoeddi gan y Cynulliad ar 20 Mai 2004. Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gyflawni cydbwysedd ariannol erbyn 2005-06 ac ad-dalu'r holl ddiffyg ariannol erbyn 2008-09. Fel rhan o'r cynllun cymeradwy hwn targed ariannol yr Ymddiriedolaeth yn 2004-05 yw diffyg ariannol o £2.444m.

Mae Fframwaith Gwasanaeth ac Ariannol ar gyfer 2005-06 wedi cael ei gytuno gyda Swyddfa Ranbarthol Llywodraeth Cynulliad Cymru, tra'n cydnabod bod yna risg ariannol gweddillol o £2.4m y mae'n rhaid i'r gymuned iechyd ddelio ag e. Ar gyfer 2005-06 mae gan yr Ymddiriedolaeth risgiau ariannol o hyd at £7m y bydd rhaid delio â hwy er mwyn galluogi'r Ymddiriedolaeth i gwrdd â'i dyletswydd heb ennill na cholli ar gyfer y flwyddyn. Mae cynlluniau ar gyfer gwneud arbediadau effeithlonrwydd o £2.2m a datrys risgiau o 2004-05 yn rheolaidd wedi cael eu cytuno gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro a budd-ddeiliaid eraill mae cynlluniau'n cael eu paratoi i ddelio â'r risg ariannol gweddillol ond nid ydynt wedi cael eu cwblhau eto.

Hefyd, nid yw'r cynlluniau wrth gefn cymunedol er sicrhau bod targedau ariannol ar gyfer 2005-06 yn cael eu cyflawni, bod y risg ariannol cymunedol gweddillol o £2.4m yn cael ei ddelio ag e a bod hylifedd yn cael ei gynnal, wedi cael eu cwblhau eto.

Yn ogystal â chwrdd â'r her ariannol sylweddol ar gyfer 2005-06, mae telerau'r CNES cyfredol yn gofyn am gyllid benthyg o ryw £8.2m i'w ad-dalu rhwng 2006-07 a 2008-09.

### 24.2 Ariannu allanol

**Rhoddir terfyn ariannu allanol i'r Ymddiriedolaeth y gall ei dan-gyflawni**

| | | | 31 Mawrth 2004 |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | £000 |
| Terfyn ariannu allanol a bennir gan y Cynulliad | | **6,049** | 7,785 |
| Ariannu'r llif arian | **6,164** | | 6,934 |
| Prydlesau cyllid a gafwyd yn ystod y flwyddyn | **0** | | 123 |
| Derbyniadau cyfalaf eraill | **(124)** | | (40) |
| Gofyniad ariannu allanol | | **6,040** | 7,017 |
| Heb gyrraedd y targed (wedi mynd heibio'r targed) | | **9** | 768 |

**Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei therfyn ariannu allanol.**

**24.3 Talu credydwyr**

Mae gofyn i'r Ymddiriedolaeth dalu 95% o'r nifer o filiau heb fod yn rhai'r GIG o fewn 30 diwrnod i dderbyn nwyddau neu anfoneb ddilys (pa un bynnag sydd hwyraf). Sicrhaodd yr Ymddiriedolaeth y canlyniadau canlynol:

| | |
|---|---|
| | **2004-05** |
| Cyfanswm nifer y biliau heb fod yn rhai'r GIG a dalwyd 2004-05 | **44,599** |
| Cyfanswm nifer y biliau heb fod yn rhai'r GIG a dalwyd o fewn targed | **41,913** |
| Canran y biliau heb fod yn rhai'r GIG a dalwyd o fewn targed. | **94.0%** |

**Ni lwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyrraedd y targed.**

Er nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni'r targed hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol lawn mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni'r targed ym mhob un o'r misoedd rhwng Rhagfyr 2004 a Mawrth 2005.

## 25. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gorff corfforaethol a sefydlwyd trwy orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol.

Derbyniodd Mrs ME Hodgeon blaendâl cyflog di-log o £21,000 pan symudodd hi i Sir Benfro. Bydd yr hyn sy'n weddill ar 31 Mawrth 2004 o £1,000 yn cael ei ad-dalu'n llawn yn 2004-05.

Roedd Mrs ME Hodgeon yn Aelod Bwrdd Coleg Sir Benfro yn ystod 2004-05. Yn 2004-05 gwnaeth yr Ymddiriedolaeth daliadau o £47,940 i, a derbyniodd £300 o Goleg Sir Benfro.

Roedd Mr EK James yn Aelod Gweithredol o Elusen Martin Roberts yn ystod 2004-05. Yn 2004-05 derbyniodd yr Ymddiriedolaeth £5,888 o Elusen Martin Roberts.

Ystyrir y Cynulliad fel parti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn mae'r Ymddiriedolaeth wedi cael nifer sylweddol o drafodion perthnasol gyda'r Cynulliad a gydag endidau eraill lle ystyrir y cynylliad fel y corff rhiant.

Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth incwm o £78,725,794 gan Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro yn ystod 2004-05. Cafodd yr Ymddiriedolaeth nifer o drafodion gyda Byrddau Iechyd Lleol eraill yn ystod ei weithgareddau, roedd y rhain yn cynnwys Byrddau Iechyd Lleol Caerfyrddin, Ceredigion a Phowys.

Yn ogystal â hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cael nifer sylweddol o drafodion perthnasol gydag Ymddiriedolaethau GIG eraill, ac Adrannau eraill y Llywodraeth a chyrff Llywodraeth ganolog a lleol eraill. Yn 2004-05 talodd yr Ymddiriedolaeth £1,056,310 i Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin mewn perthynas â chostau cyflogau, gwasanaethau archwiliad mewnol a chyfleusterau; talwyd £768,863 i Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg am brynu nwyddau o Gyflenwadau Iechyd Cymru; talwyd £628,741 i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru am wasanaethau cludo cleifion, a £227,420 i Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion am gostau cyfleusterau.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi derbyn cyllid a thaliadau cyfalaf o Gronfa Elusennol Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen, ac mae Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen yn Ymddiriedolwr corfforaethol iddi.

# 26. Trafodion eraill/ trafodion cyllid preifat

### 26.1 Cynlluniau gweithredol PFI a ystyrir i fod yn anghytbwys

| | £000 |
|---|---|
| Symiau a gynhwysir yn y treuliau gweithredol mewn perthynas â thrafodion PFI a ystyrir i fod yn anghytbwys – gros | **74** |
| Amorteiddiad ased gohiriedig PFI | **0** |
| Tâl net i dreuliau gweithredol | **74** |

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i wneud y taliadau canlynol yn ystod y flwyddyn nesaf.

| Cynllun PFI sydd yn dirwyn i ben: | £000 |
|---|---|
| O fewn blwyddyn | **74** |
| 2-5 blynedd (yn gynhwysol) | |
| 6-10 blynedd (yn gynhwysol) | |
| 11-15 blynedd (yn gynhwysol) | |
| 16-20 blynedd (yn gynhwysol) | |
| 21-25 blynedd (yn gynhwysol) | |
| 26-30 blynedd (yn gynhwysol) | |
| ayyb | |

Disgwylir i'r taliadau blynyddol amcangyfrifiedig yn y dyfodol i fod yn wahanol i'r rhai hynny y mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i wneud yn ystod y flwyddyn nesaf.

| | £000 |
|---|---|
| Gwerth cyfalaf amcangyfrifiedig y Cynllun PFI | **150** |

| | |
|---|---|
| Dyddiad dechrau'r cytundeb: | **1 Ebrill 1996** |
| Dyddiad diwedd y cytundeb: | **31 Mawrth 2006** |

Rheolaeth uned pwer gwres cyfunol (CHP) yw'r cynllun PFI.

### 26.2 Elfen "gwasanaeth" cynlluniau PFI a ystyrir i fod yn gytbwys

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw gynlluniau PFI a ystyrir i fod yn gytbwys. Felly, ni chynhwysir unrhyw symiau mewn treuliau gweithredol mewn perthynas ag elfen "gwasanaeth" cynlluniau felly.

## 27. Project Cyllideb ar y Cyd

Nid oedd gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw brojectau cyllideb ar y cyd yn 2004-05.

## 28. Asedau trydydd parti

Roedd gan yr Ymddiriedolaeth £268,162 o arian parod yn y banc ac wrth gefn ar 31 Mawrth 2005 (31 Mawrth 2004: £191,470) sef arian sy'n cael ei ddal gan yr Ymddiriedolaeth ar ran cleifion. Mae hwn wedi ei dynnu allan o arian parod yn y banc ac mewn llaw a hysbysir yn y cyfrifon yma.

## 29. Cyfryngau ariannol

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar grantiau adrannol ar gyfer ei harian parod, ac felly nid yw'n agored i beryglon hylifedd. Nid oes ganddi unrhyw gronfeydd cadw arwyddocaol, ac mae ei hasedau a'i ymrwymiadau arwyddocaol i gyd mewn sterling, felly nid yw'n agored i berygl cyfradd llog neu arian cyfredol.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth un rwymedigaeth prydles ariannol. Gwerth yr ymrwymiad hwn ar ddyddiad y fantolen yw £56,274, ni chafodd cyfradd llog sydd ymhlyg yn yr ymrwymiad hwn ei ganfod yn y cytundeb prydles.

## 30. Balansau Rhynglywodraethol

| | Dyledwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | Dyledwyr: Symiau sy'n ddyledus ar ol mwy na blwyddyn | Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus ar ol mwy na blwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 3,289 | 0 | 0 | 11,038 |
| Byrddau Iechyd Lleol Cymru | 1,066 | 0 | 130 | 0 |
| Ymddiriedolaethau GIG Cymru | 869 | 0 | 630 | 0 |
| Comisiwn Iechyd Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Holl Gyrff Iechyd Lloegr | 0 | 0 | 4 | 0 |
| Holl Gyrff Iechyd Gogleddd Iwerddon | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Holl Gyrff Iechyd Yr Alban | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Amrywiol | 1,158 | 0 | 0 | 0 |
| Darpariaeth nodyn credyd | (8) | 0 | | |
| Is-gyfanswm | **6,374** | **0** | **764** | **11,038** |
| Chyrff eraill y Lywodraeth Ganolog | | | | |
| Adrannau eraill y Llywodraeth* | 17 | 0 | 1,055 | 0 |
| Cyllid y Wlad | 0 | 0 | 1,181 | 0 |
| Tollau Tramor a Chartref | 190 | 0 | 0 | 0 |
| Awdurdodau Lleol | 455 | 0 | 270 | 27 |
| Balansau gyda Chorfforaethau Cyhoeddus a chronfeydd masnachu | 0 | 0 | 80 | 0 |
| Balansau gyda chyrff y tu allan i'r Llywodraeth | 989 | 0 | 5,325 | 0 |
| **Cyfanswm ar 31 Mawrth 2005** | **8,025** | **0** | **8,675** | **11,065** |

*** Adrannau eraill y Llywodraeth â balansau >£1m**

Nodwch os gwelwch yn dda:

Mae Adrannau eraill y Llywodraeth yn cynnwys £1,053,979 oherwydd yr Asiantaeth Pensiynau GIG

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEB Y PRIF WEITHREDWR FEL SWYDDOG CYFRIFOL YR YMDDIRIEDOLAETH**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyfarwyddo mai'r Prif Weithredwr fydd y Swyddog sydd yn Gyfrifol I'r Ymddiriedolaeth. Amlinellir cyfrifoldebau perthnasol y Swyddogion Cyfrifol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb gyda phriodoldeb a chysondeb yr ariannu cyhoeddus y maent hwy yn atebol amdanynt, ac am gadw cofnodion cywir, yng Nghofnodion y Swyddogion Cyfrifol a gyhoeddwyd gan y Cynulliad.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth ac fy nghred, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a osodwyd allan yn fy llythyr penodi yn gywir fel Swyddog Cyfrifol.

Dyddiad: 28 Gorffennaf 2005 ME Hodgeon Prif Weithredwr

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU Y CYFARWYDDWYR MEWN PERTHYNAS A'R CYFRIFON

O dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 mae gofyn i'r cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cyfarwyddo fod y cyfrifon hyn yn rhoi golwg wir a theg o'r sefyllfa sydd ohoni yn yr Ymddiriedolaeth ac o incwm a gwariant yr Ymddiriedolaeth am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae gofyn i'r cyfarwyddwyr:

- roi polisiau cyfrifon ar sail cyson a osodwyd i lawr gan y Cynulliad gyda chymeradwyaeth y Trysorlys;

- wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sydd yn rhesymol a gofalus;

- datgan os yw'r safonau cyfrifon priodol wedi cael eu dilyn, o ganlyniad i unrhyw ymadawiadau materol a ddatgelwyd neu a eglurwyd yn y cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio gyda'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifon cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw amser sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ac i'w galluogi hwy i sicrhau fod y cyfrifon yn cydymffurfio gyda'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddiad a grybwyllir uchod gan y Cynulliad.

**Dan Orchymyn y Bwrdd**

**Arwyddwyd:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad: | 28 Gorffennaf 2005 | Cadeirydd: | LJ George |
| Dyddiad: | 28 Gorffennaf 2005 | Prif Weithredwr: | ME Hodgeon |
| Dyddiad: | 28 Gorffennaf 2005 | Cyfarwyddwr Cyllid : | KT Jones |

# Datganiad ar Reolaeth Fewnol

### 1. Sgôp Cyfrifoldeb

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am reolaeth fewnol. Fel Swyddog sy'n Atebol a Phrif Weithredwr y Bwrdd hwn, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nod ac amcanion y sefydliad tra'n amddiffyn arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad hwn yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd gan Swyddog sy'n Gyfrifol GIG Cymru.

### 2. Pwrpas y system rheolaeth fewnol

Dyluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na lleddfu pob risg neu fethiant i gyflawni polisïau, nod ac amcanion; felly gall ond gynnig sicrwydd effeithiolrwydd rhesymol ac nid pendant. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses gyfredol a ddyluniwyd i ganfod a blaenoriaethu'r risg i gyflawni polisïau sefydliadol, nod ac amcanion, gwerthuso tebygolrwydd y risg hwnnw'n cael ei ryddhau a'r effaith os rhyddheir, i'w rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bodoli o fewn y sefydliad am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2004 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ac mae'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### 3. Gallu i ddelio gyda risg

Y Prif Weithredwr yw'r Swyddog sy'n Atebol dros reolaeth risg. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio ac Ansawdd wedi dirprwyo cyfrifoldeb am reolaeth risg ar draws yr Ymddiriedolaeth. Mae Cyfarwyddwyr Meddygol Cysylltiol, Rheolwyr Cyffredinol a Phenaethiaid Adrannau wedi dirprwyo cyfrifoldeb am reolaeth risg yn eu meysydd gwasanaeth.

Mae hyfforddiant a datblygiad mewn rheolaeth risg ar gael i holl staff yr Ymddiriedolaeth. Mae'r hyfforddiant hwn yn dechrau fel rhan o raglen gynefino'r sefydliad. Mae gan staff fynediad i ystod eang o hyfforddiant sy'n gymesur â'u rôl yn y sefydliad a'r cyfraniad y disgwylir iddynt wneud i'r broses rheolaeth risg. Mae'r hyfforddiant a gynigir yn cynnwys:

- Asesu risg
- Rheolaeth risg clinigol
- Dadansoddi gwir achos/adolygu digwyddiad difrifol
- Sefydliad Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol, IOSH

Mae'r Strategaeth Rheolaeth Risg yn amlinellu'r rhestr o bobl cymwys yn yr Ymddiriedolaeth sydd ar gael i ddarparu cyfarwyddyd a chyngor ar faterion penodol yn ymwneud â rheolaeth risg. Mae rheolaeth risg rhagweithiol a dysgu gwersi o ddigwyddiadau'n digwydd drwy'r dulliau canlynol.

Yn allanol:

- Drwy feincnodi ag ymddiriedolaethau eraill
- Cydweithio â sefydliadau a budd-ddeiliaid eraill e.e. Swyddfa Ranbarthol Llywodraeth Cynlluniad Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol
- Rhwydwaith Rheolwyr Risg Cymru
- Asiantaeth Cenedlaethol dros Ddiogelwch Cleifion

Yn fewnol:

- Dadansoddi gwir achos neu adolygu achosion difrifol, digwyddiadau enbyd a throeon agos
- Cyfarwyddiaeth Rheolaeth Glinigol a Grwpiau Rheolaeth Risg
- Dysgu Adrannol o Grwpiau Digwyddiadau
- Rheolaeth Glinigol Adrannol a Grwpiau Cydlynu Rheolaeth Risg

## 4. Y Fframwaith risg a rheolaeth

Mae Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen yn asesu ac yn blaenoriaethu'r holl risgiau sylweddol. Mae'r broses hon yn arwain at ffurfio proffil risg ar draws yr Ymddiriedolaeth sydd yn adnabod y risgiau o fewn y sefydliad sydd yn anodd iawn i'w rheoli. Cofrestr risgiau y mae'r Ymddiriedolaeth yn gwybod amdanynt yw'r asesiad risg a hynny drwy broses o asesiadau risg ar draws y sefydliad i gyd. Mae proffilio risgiau yn sylfaen i'r broses rheolaeth risg gyfan ac mae'n cynnwys:
- Casglu gwybodaeth oddi wrth yr holl fudd-ddeiliaid am feysydd a ystyrir i fod yn risg
- Y parodrwydd i adrodd am enghreifftiau o gamgymeriadau cudd a gweithredol yn fuan iawn ar ôl y digwyddiad
- Rheoli a lleihau/dileu pa le bynnag yn bosibl meysydd risg dynodedig

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i reoli'r risg sydd yn rhan o'r gwasanaethau y mae'n darparu bob dydd. Nid yw'n bosibl i reoli risg hyd nes ei fod yn hysbys. Mae adnabod, asesu a chofnodi risgiau yn hanfodol i lwyddiant rheolaeth risg. Fframwaith yw Rheolaeth Risg i ganfod gwahanol achosion risg a pherygl gyda'r amcan allweddol o gynnal diogelwch y budd-ddeiliaid. Mae'n gwneud hyn drwy ganfod risgiau yn ragweithiol a chynllunio i gwrdd â deddfwriaeth a chanllawiau newydd. Mae Safonau Rheolaeth Risg Cymru yn gwneud cyfraniad allweddol i effeithlonrwydd rheolaeth risg. Yn dilyn asesiad gan yr Asiantaeth Archwilio Mewnol sgoriodd yr Ymddiriedolaeth dros 75% yn y Safonau Craidd i gyd ar gyfer y flwyddyn 2004-05. Rhestrir y sgorau penodol isod:

Safon Rhif 1 Polisi a Strategaeth Rheolaeth Risg – 95%
Safon Rhif 2 Asesu a Thrin Risgiau – 100%
Safon Rhif 3 Adrodd am Ddigwyddiadau a Pheryglon – 94%
Safon Rhif 37 Llywodraethu – 90%
Safon Rhif 38 Rheolaeth Ariannol – 99%

Caiff rheolaeth risg ei gosod yn y sefydliad drwy:

- Integreiddio'r Strategaeth Rheolaeth Risg, Amddiffyn Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd o fewn prosesau/strategaethau sydd yn bod a chyflwyno hyn mewn cynlluniau gweithredu
- Bydd systemau rheolaeth risg cynhwysfawr ar gyfer adrodd ac adolygu'r holl ddigwyddiadau, digwyddiadau difrifol a throeon agos yn cael eu defnyddio gan yr holl gyfarwyddiaethau/gwasanaethau ac adrannau i ganfod peryglon a risgiau, a rheoli tueddiadau. Bydd hyn yn cael ei integreiddio i gynnwys arolwg o'r achosion cyfreithiol a chwynion er mwyn datblygu dysgu o'r gwersi
- Bydd gwelliannau clinigol, sefydliadol ac ansawdd priodol yn cael eu gweithredu o fewn cyfarwyddiaethau/gwasanaethau ac adrannau i leihau risgiau clinigol a risgiau eraill i'r eithaf a bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu lle y byddai datblygiadau corfforaethol o fudd i'r gwasanaeth
- Annog yr holl staff i adrodd am ddigwyddiadau, pryderon a throeon agos fel rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu diwylliant rhagweithiol ac agored o reolaeth risg, amddiffyn iechyd, diogelwch a'r amgylchedd
- Bydd proffilio risgiau systematig ac amserol yn darparu gwybodaeth ar gyfer datblygu cofrestrau a strategaethau adrannol, cyfarwyddiaeth/gwasanaeth, ac ar draws yr Ymddiriedolaeth
- Gweithredu a monitro'r Safonau Rheolaeth Risg Cymru ym mhob cyfarwyddiaeth/gwasanaeth ac adran
- Cyfarwyddiaethau/gwasanaethau ac adrannau yn cydymffurfio â gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA) a'r holl stadudau, deddfwriaeth a rheolau eraill y Deyrnas Unedig a Chymuned Ewrop yn ymwneud â gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth
- Bydd Codau Ymarfer a gymeradwyir gan y Pwyllgor Gweithredu Iechyd a Diogelwch yn cael eu mabwysiadu a bydd canllawiau Amddiffyn Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn hysbysu arferion a safonau gweithio'n ddiogel o fewn cyfarwyddiaethau/gwasanaethau ac adrannau
- Hyfforddi'r holl staff mewn perthynas â materion sefydliadol a chlinigol iechyd a diogelwch ac unrhyw gyfarwyddyd mewn peryglon penodol yn gysylltiedig â'r gwaith a wnaed; rhagofalon arbennig, yr angen am wyliadwriaeth iechyd a gweithdrefnau brys. Bydd hyfforddiant ar gyfer sgiliau clinigol a chymwysterau'n cael eu gwneud yn ôl yr angen.

**5. Adolygiad Effeithiolrwydd**

Fel Swyddog sy'n Atebol, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol wedi'i hysbysu gan waith yr archwilwyr mewnol a swyddogion gweithredol o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal fframwaith rheolaeth fewnol a sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Cefais fy hysbysu am oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio (a'r Pwyllgor Risg, os yn briodol) ac mae cynllun i ddelio gyda gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus y system yn bodoli.

Arwyddwyd: ME Hodgeon
Prif Weithredwr
(ar ran y Bwrdd)

Dyddiad: 28 Gorffennaf 2005

## TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 1 i 35 o dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'u haddaswyd gan y broses o ailbrisio rhai asedau sefydlog a'r polisïau cyfrifyddu fel y nodir ar dudalennau 6 i 11.

### Priod gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr, y Prif Weithredwr a'r Archwiliwr

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 37 mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Adran 98(2) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi Rhagair/cynnwys arall yr Adroddiad Blynyddol. Sefydlwyd fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, drwy statud a rhoddaf ystyriaeth i'r safonau a'r arweiniad a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a ydynt wedi eu paratoi yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, ac a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr sylweddol, wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyriaf p'un a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau sylweddol â'r datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 38 i 40 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr Ymddiriedolaeth ag arweiniad y Trysorlys a'r Cynulliad ar y Datganiad Rheolaeth Fewnol. Adroddaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys a'r Cynulliad, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, a yw'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn cwmpasu pob risg a rheolaeth. Nid yw'n ofynnol i mi ychwaith roi barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol yr Ymddiriedolaeth na'i gweithdrefnau risg a rheoli.

### Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau o bwys a wneir gan y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Ymddiriedolaeth, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n briodol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd, yn fy marn i, yn angenrheidiol i roi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

**Ansicrwydd sylfaenol**

Wrth gyrraedd fy marn, rwyf wedi ystyried y datgeliad yn y datganiadau ariannol ynglŷn â'r sefyllfa ariannol am 2005-06, o gofio'r angen i adennill costau, ac yn absenoldeb cynlluniau terfynol i gau'r bwlch sylweddol rhwng incwm am y flwyddyn ariannol a'r lefelau gwariant presennol a'r angen i ad-dalu benthyciadau o 2006-07 o fewn termau y Cynllun Newid ac Effeithlonrwydd Strategol a gymeradwywyd.

Ceir manylion yr ansicrwydd sylfaenol yma yn Nodyn 24.1.

Nid yw fy marn yn amodol ynglŷn â hyn.

**Barn**

Yn fy marn i:

Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o faterion Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen ar 31 Mawrth 2005 a'i gwarged/diffyg, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben, ac fe'u paratowyd yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn unol â'r Ddeddf honno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

Ym mhob ystyr sylweddol mae'r gwariant a'r incwm wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Awst 2005

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA